


Chwilen neu Ddwy yn fy Mhen

Nodiadau

Cenedlaetholwr a Sosialydd

gan

Emrys Roberts



Cymdeithas Hanes Plaid Cymru


Mae Cymdeithas Hanes Plaid Cymru yn cyflwyno fersiwn llawn o 'Chwilen neu Ddwy yn fy Mhen – Nodiadau Cenedlaetholwr a Sosialydd' gan Emrys Roberts, cyn ysgrifennydd Plaid Cymru a ymladdodd isetholiad Merthyr 1972.

Cyhoeddwyd 'Chwilen neu Ddwy yn fy Mhen' yn Gymraeg a Saesneg gan Gymdeithas Hanes Plaid Cymru.

Mehefin 2011

<http://www.hanesplaidcymru.org>

Merthyr needs more jobs



Cynnwys

Rhagair

Blynyddoedd Cynnar: Leamington Spa, 1931 – 1941

Symud i Gaerdydd (1940au cynnar) a'r iaith Gymraeg

Hanes Cymru, a'i bwysigrwydd

Yr Ysgol Sul a Chrefydd

Gwleidyddiaeth – Etholiad 1945 a gwrthwynebu consgripsiwn

Carchar: 1952

Coleg – ac areithio'n gyhoeddus

Plaid Cymru – ymgyrchu yn isetholiad Aberdâr, 1954

Gwynfor Evans, Isetholiad Glyn Ebwy 1960 a'r Radio (anghyfreithlon!)

Ysgrifennydd y Blaid – y 1960au cynnar

Fy Niswyddo, 1964

Gwaith – mewn 20 neu fwy o swyddi

Isetholiad Merthyr Tudful 1972

Merthyr Tudful – cipio'r awenau, 1976

Gweithredu Uniongyrchol

Yr Undeb Ewropeaidd, Karl Marx a Chomisiwn Ymchwil y Blaid

Ymgyrch y Sianel Deledu a symud i Faesycwmer, 1980au cynnar

Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd, 1988

Y Gwasanaeth Iechyd, o'r 1960au ymlaen

Gwasanaethau Iechyd Meddwl, y 1990au

Biwrocratiaeth, a gwersi Sweden

Arbrawf Llwyddiannus yng Nghymru – a ffolineb y Torïaid

Chwilen neu Ddwy yn fy Mhen

Nodiadau Cenedlaetholwr a Sosialydd

Rhagair

Nid hanes fy mywyd ydy'r ychydig nodiadau yma. Ni allaf feddwl y byddai hynny o ddiddordeb i fawr neb. Ond fe'm perswadiwyd efallai ryw bryd y bydd fy wyrion neu aelodau eraill o'r teulu am ofyn cwestiynau ynglŷn â sut a pham y deuthum yn weithgar ar ran y Blaid ac ymhél ag achosion heddwch a sosialaeth ac ymddiddori'n arbennig yn strwythur y Gwasanaeth Iechyd. Ymgais i ateb rhai o'r cwestiynau yna sydd yma.

Nid wyf yn sôn llawer am hanes personol, na'm teulu. Nid am nad yw perthnasau personol ddim yn bwysig imi ond am imi gredu y dylai bywyd preifat aros yn breifat ond pan mae'n effeithio'n sylweddol ar y pwnc dan sylw. Gobeithio na fydd na theulu na chyfeillion yn pwdu os na cheir sôn amdanynt yma. Maent yn bwysig mewn agweddau eraill o'm bywyd nad ydynt yn gwbl berthnasol yma.

Blynyddoedd Cynnar: Leamington Spa, 1931 – 1941

Leamington

Fe'm ganed ym 1931 yn Leamington Spa, Swydd Warwick, Lloegr - fy mam o Leamington ond fy nhad yn hanu o Flaenau Ffestiniog, heibio Llundain a Canada. Ymunodd a byddin Canada ar ddiwrnod cynta'r Rhyfel Byd cyntaf, cael ei anafu'n wael, priodi a fy mam ac ennill y Groes Filitaraidd am arwain ymgyrch ar ynnau'r Almaenwyr.

Ar ôl y rhyfel aeth fy rhieni yn ôl i Ganada, lle ganwyd fy mrawd Gwynfor ym 1920. Daethant yn ôl i Leamington ym 1922 i gymryd drosodd siop llyisiau a ffrwythau rhieni fy mam ac yno y ganed fy chwaer Megan ym 1929 a minnau ym 1931.

Roedd fy nhad yn Gymro pybyr na fedrai lawer o Saesneg cyn iddo fynd i weithio yn Llundain yn dair-ar-ddeg oed. Ond yr unig Gymraeg a gofiad o'r adeg honno yw'r "Nos Da" a ddywedais iddo bob nos wrth fynd i'r gwely. Bu fy chwaer a minnau'n ymweld â'n Nain yn y Blaenau unwaith neu ddwy ac aros rhai dyddiau gyda chwaer fy nhad, Modryb Bet a'i gŵr, Griffith John Williams, yng Ngwaelod y Garth ger Caerdydd. Roedd hi'n mynnu siarad Cymraeg a ni bob tro er nad oeddem yn deall fawr ddim.

Un o'm hatgofion cyntaf yw gwranddo ar guriadau calon y brenin Siôr V wrth iddo farw. Ond wnaeth hynny fawr argraff ar y teulu. Rwy'n cofio hefyd ryw ddwy flynedd yn ddiweddarach i fom ffrwydro ger y bont rheilffordd rhwng Leamington a Warwick. Gwaith aelodau'r IRA, mae'n debyg. Rwy'n cofio gofyn am esboniad am y digwyddiad gan fy nhad - fy niddordeb cyntaf mewn gwleidyddiaeth - ond nid wyf yn cofio'r ateb!

Rwy'n cofio sôn am Brif Weinidog hefyd, efallai pan ddaeth Chamberlain yn ôl o München gyda darn o bapur yn ei law. Gofynnais i'n nhad beth oedd Prif Weinidog ac atebodd mai ef oedd y pwysicaf o blith gweinidogion y brenin. I mi, rhywun oedd yn pregethu mewn

capel ar y Sul oedd gweinidog a methais yn lan a deall pam oedd angen mwy nag un ohonynt ar y brenin!

Ar ôl y Rhyfel Byd cyntaf, roedd fy nhad wedi troi'n heddychwyr. Byddai amryw o heddychwyr eraill yn dod i'n tŷ am swper o bryd i'w gilydd, lawer ohonynt a chysylltiad â'r "Bruderhof" - grŵp o bobl nad oedd ganddynt unrhyw eiddo personol ond yn rhannu pob dim yn gyfartal. Roedd grŵp ohonynt yn byw ar ffarm yn agos i Leamington. Dau rwy'n cofio'n arbennig iawn oedd yr annwyl Harri ac Edith Soan. Bu Harri'n weinidog yn Coventry ond gadawodd ei eglwys ar ddechrau'r ail Ryfel Byd gan fod cynifer o'r aelodau'n anghytuno a'i safbwynt heddychlon. Symudodd i dyddyn rai blynyddoedd wedyn yn Cil-y-Cwm a dod yn gyfeillion a Gwynfor Evans. Roedd niferoedd llawer yn gwrando ar ei ddyddiadur gwledig a ddarllledwyd ar y radio yn wythnosol am rai blynyddoedd.

Rwy'n cofio llawer sgwrs ddiddorol - er nad oeddwn yn deall popeth o bell ffordd, yn enwedig pan aethant ati i ddadlau moesoldeb atal cenhedlu! Ond mae'n rhaid mai'r pryd hynny y cefais flas ar drafod pynciau gwleidyddol.

Yn nyddiau cynnar yr ail Ryfel Byd, roedd pawb ohonom yn cael masg nwy ac yn gorfod ei gario i bob man. Rwy'n cofio unwaith sglefrio gyda'm cyfeillion ar yr ia mewn cae isel wrth ochr afon Leam. Roeddwn yn sglefrio mor rhwydd, methais ag atal fy hunain rhag llithro mewn i'r afon a'r cwdyn a'r masg nwy ynddo ar fy nghefn ac yn tynnu fi i lawr. Llwyddodd un o'm cyfeillion estyn cangen farw o goeden gyfagos draw dros y dŵr a llwyddais i gyrraedd y lan. Ond chefais byth lawer o flas ar nofio wedi hynny! Roedd yn well gen i gemau mwy ymosodol megis rygbi a sboncian.

Mae Leamington nepell o Coventry ac 'rwy'n cofio'n iawn y noson y bu awyrlu'r Almaenwyr yn ymosod ar y ddinas honno. Gollyngasant fflaglau dros y ddinas i'w cynorthwyo i daro'u targedau. Er yng nghanol y nos, roedd yn ymddangos yn ganol dydd, hyd yn oed yn Leamington. Clywsom y diwrnod wedyn am yr holl ddifrod a wnaed. Ni allaf gofio'n

iawn, ond efallai mai'r bore hwnnw y gwelsom fod ffos fechan o ryw hanner modfedd o gwmpas cefn ein tŷ ni. Roedd yr holl adeilad wedi symud mymryn! Ac roedd yn dy eithaf sylweddol. Er yng nghanol rhes o siopau erbyn hynny yng nghanol y dref, bu'n hen westy coetsio flynyddoedd cynt, wedi ei rannu'n ddau rhyngom ni a'r teulu Butlins oedd yn byw drws nesa. Weithiau, os oeddem yn ddrygionus, byddai'n nhad yn danfon fy chwaer a minnau i'r llofft mawr uwchben. Roeddwn innau'n hoffi mynd yno gan fod pob math o bethau diddorol yna, gan gynnwys baddon eistedd hen ffasiwn a cherflun mawr pen-a-sgwyddau o Shakespeare. Mae'n debyg i'r hen westy gael ei alw ar ei ôl ef yn y dyddiau cynt.

Roeddem yn rhannu iard go fawr yn y cefn ac roedd yno stablau mawr yr oeddwn i a'm cyfeillion yn chwarae ynddynt. Roedd amryw o ffenestri'r adeilad wedi'u bricio ac yn sgil hynny cefais fy ngwers gyntaf am dreth gan fy nhad. Roedd y ffenestri wedi eu cau, wrth gwrs, i osgoi'r dreth ffenest a godwyd gan lywodraeth y dydd mwy na chanrif cynt.

Symud i Gaerdydd (1940au cynnar) a'r iaith Gymraeg

Ac wedyn, symud i Gaerdydd ym 1941. Roedd un o frodyr iau fy nhad, Dewyrth Dic, yn cadw siop papurau newydd yn Heol y Crwys, Caerdydd. Un noson ym 1941, pan oedd ei wraig yn ymweld â'i rhieni yn Swydd Caerhirfryn, fe gwmpodd yntau lawr y grisiau yn ei frys i fynd allan ar ei ddyletswyddau'n wylwr tan, a chafwyd hyd iddo'n farw ar waelod y grisiau'r bore wedyn. Gwerthodd fy nhad y siop yn Leamington a symudasom i Gaerdydd iddo yntau gael edrych ar ôl y siop yn Heol y Crwys ar ran gweddw fy ewythr. Nid wyf yn gwybod yn union pam y penderfynodd wneud hynny - gofal am ei chwaer-yinghyfraith hwyrach a theimlad y byddem yn fwy diogel efallai yn ne Cymru. Ond y symbyliad mwyaf mae'n siŵr oedd y cyfle i symud yn ôl i Gymru. Erbyn hynny, roedd Gwynfor yn y llu awyr - ac wedi'r rhyfel aeth yn ôl i'w waith yng nghanolbarth Lloegr. Fuodd e 'rioed yn byw yng Nghymru na dysgu Cymraeg ond mae'n dal i ystyried ei hun yn Gymro.

Er yn Fedyddiwr, penderfynodd fy nhad fynychu eglwys annibynnol Minny St, oedd nepell o'r siop, yn hytrach na mynd i ganol y dref i'r Tabernacl, ac i Minny St yr aeth Megan a minnau deirgwaith y Sul. Ymunodd fy mam â chapel Bedyddwyr Saesneg yn Woodville Rd. Ym Minny St y dechreuais ddysgu Cymraeg a dechreuodd fy nhad siarad Cymraeg â ni. Treuliais flwyddyn yn Ysgol Elfennol Gladstone, ac yna, yn ddeg oed, es i Ysgol Uwchradd Cathays. Roedd tri dosbarth ymhob blwyddyn ar y pryd, un dosbarth yn unig a ddysgai'r Gymraeg a'r ddau arall yn astudio Sbaeneg.

Ymunais innau â'r dosbarth Cymraeg, wrth gwrs a chael Elvet Thomas yn athro Cymraeg. Ar y pryd, doeddwn innau ddim yn gweld unrhyw beth arbennig yng ngwersi Elvet – ar wahân i'r tynnu gwallt ar gefn eich pen oedd yn arferiad ganddo os nad oeddech yn cymryd y wers o ddifri! Ond mae'n rhaid bod rhywbeth go arbennig iddo. Pan ddechreuais yn yr ysgol roedd Maxwell Evans yn brif ddisgybl. Aeth yntau ymlaen flynyddoedd wedyn i fod yn offeiriad yn Eglwys Dewi Sant, eglwys Anglicanaidd Gymraeg y ddinas. Ar ei ôl ef, roedd nifer

sylweddol o fechgyn o gartrefi di-Gymraeg a ddaeth yn rhugl yn yr iaith ac yn athrawon adnabyddus megis Pat Wainwright, Bobi Jones, Alwyn Prosser a Tedi Millward.

Roedd y tri diwethaf yma yn yr un dosbarth ysgol Sul a minnau oedd dan arweiniad yr annwyl Llew Walters. Cawsom ddadleuon diddorol ar bob math o bynciau yno, a rhwng Elvet yn yr ysgol a Llew yn yr ysgol Sul daethom ninnau'n rhugl yn yr iaith. Rwy'n cofio peidio gallu deall Cymraeg pan oeddwn yn ifanc, ond ni allaf ddweud y bu raid i mi wneud ymdrech fawr i'w dysgu yn yr hinsawdd ieithyddol honno. Wedi dweud hynny, rhaid cyfaddef fy mod yn teimlo i mi golli allan yn sylweddol trwy beidio â chael fy nghodi mewn cymdogaeth drwyadl Gymraeg – heb fy nhrwytho yn “y pethe” os mynnwch. Efallai i'r ffaith imi ddilyn llwybr gwleidyddol yn hytrach na llwybr academiaidd gryfhau'r teimlad yna imi golli allan rywfaint ar yr ochr ddiwylliannol (rwy'n dal i ddweud fy mod am ddysgu cynganeddu'n iawn rywbyrd, ond pryd?).

Gloywyd fy iaith gryn dipyn wrth fyw gyda Modryb Bet ddiwedd 1943 pan oedd fy nhad yn chwilio am gartref newydd – er iddi hithau, fel fy nhad a nifer fawr o Gymry o'r gogledd ysywaeth, ddefnyddio nifer o eiriau Saesneg dianghenraid megis “bildio” a “stesiwn” yn lle “adeiladu” a “gorsaf”. Dwyf i ddim yn cofio i GJ wneud hynny erioed – ond wedyn, o gefn gwlad Ceredigion yr hanodd yntau! Dyw fy Nghymraeg ddim yn berffaith o bell ffordd – rwy'n dal i bendroni a ddylid dyblu'r “n” ai peidio, neu beth yw cenedl gair. Ond mae amryw o idiomau eithaf cyfarwydd erbyn hyn yn dal i'm gwylltio yn sgil dylanwad Modryb Bet a Dewyrth GJ.

Mae'n gyffredin clywed pobl yn dweud pethau fel “Cafodd ei benodi fel athro”. Mae “fel” yn golygu “yn debyg i”. Ni chafodd y sawl y sonnir amdano ei benodi i swydd debyg i swydd athro, ond “ei benodi'n athro”. Cyfieithu idiom Saesneg yw arfer y gair “fel” yn y cyswllt yma. Roedd y defnydd o'r gair “cychwyn” yn gwylltio fy ewythr hefyd. Iddo ef, roedd “cychwyn” yn cyfeirio at symud (ee cychwyn ar daith): i ddynodi amser, dylid defnyddio “dechrau” (cyfarfod neu gyngerdd yn dechrau).

Ymadrodd arall sy'n gwylltio yw dweud bod rhyw le "nid nepell" o le arall. Ystyr "nepell" yw "nid pell", felly ystyr "nid nepell" yw "pell"! Gwn fod y Gymraeg yn hoff o'r negyddol ddwbl ar adegau, ond ni ddylid ei defnyddio yn y cyswllt yma! Ymadrodd trwsogl arall – ond sydd ysywaeth yn gyffredin iawn erbyn hyn – yw dweud "Dywedodd ei fod wedi bod yn athro". Yr ymadrodd Gymraeg, wrth gwrs, yw "Dywedodd iddo fod yn athro". Yn anffodus mae llawer o staff Radio Cymru ac S4C yn defnyddio ymadroddion trwsogl fel hyn lle dylent osod safon am Gymraeg da.

Yn waeth na hyn oll, mae'n debyg, yw'r ffaith i lawer o ddogfennau gael eu cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg fwy neu lai air am air – a'r canlyniad yn aml yn ffwlbri annealladwy! Wrth gyfieithu, dylid cyfleu'r syniad neu'r ystyr – gan ddefnyddio ymadroddion Cymraeg naturiol os yn bosib – yn hytrach na throsi geiriau yn unig. Enghraifft dda o gyfieithu graenus fel hyn yw'r uwchdeitlau a ddefnyddir gan Gwmni Opera Cymru.

Cefais brofiad anffodus unwaith yn sgil cyfieithu geiriau yn lle cyfieithu ystyr. Roedd car arall wedi bwrw mewn imi ar gornel Flora St a Cathays Terrace yng Nghaerdydd. Roedd hawl y ffordd o'm hochr i ond doedd gyrrwr y car arall ddim yn barod i gydnabod hynny a bu raid mynd a'r mater i'r llys. Doedd yr ynad ddim yn hapus o gwbl i mi fynnu siarad yn Gymraeg (na chwaith i mi wrthod cymryd llw ar y Beib!) ond bu raid iddynt anfon am gyfieithydd. Pwy ddaeth ond Emrys Cleaver, oedd yn rhugl yn y Gymraeg, wrth gwrs, ond heb fawr brofiad o gyfieithu. Roedd yr ynad wedi'i blesio'n fawr wrth i Emrys Cleaver drosi'r ymadrodd "Eich Anrhydedd" bob tro i "Your Majesty"!

Gallwn wenu ar hynny. Ond gwaethygodd pethau pan ddadleuodd y gyrrwr arall i mi dorri'r gornel. Atebais innau nad oedd hynny'n bosib am fod "bolards" ar ganol y ffordd ac roeddwn i wedi gyrru hyd ochr gywir y "bolards". Wrth gyfieithu, dywedodd Emrys Cleaver i mi yrru "on the right side of the bollards". Ochr dde'r bolards, wrth gwrs, yw'r ochr anghywir! Bu raid i mi gyfieithu'r ymadrodd fy hun – ond mi gollais yr achos!

Flynyddoedd wedyn bu raid i Margaret a fi fynd i'r llys am beidio â thalu treth y pen yn rhan o'r gwrthdystiad yn erbyn y dreth Thatcheraid honno. Aeth yr ynad di-Gymraeg yn wyllt gan na wyddai fod ein hareithiau'n rhai gwleidyddol nes clywed y cyfieithiad - ac erbyn hynny, wrth gwrs, roedd yn rhy hwyr i'n hatal!

Hanes Cymru, a'i bwysigrwydd

Wrth i mi ddysgu'r Gymraeg, dysgais rywfaint am hanes Cymru hefyd. Deuthum i sylweddoli bod diffyg unrhyw ymwybyddiaeth am hanes y genedl yn fwy o golled hyd yn oed na cholli'r iaith. Ac ysywaeth nid y Cymry di-Gymraeg yn unig sy'n dioddef o'r golled hon. Dysgwyd rywfaint o hanes Cymru i fi yn yr ysgol a rhyw ychydig yn ddiweddarach yn y coleg hefyd. Ond ni ddysgwyd yr hanes hwnnw o safbwynt y genedl, ond yn rhyw fath o atodiad pitw i hanes Lloegr.

Deuthum i sylweddoli i'r genedl gael ei ffurfio trwy ddylanwad y Rhufeinwyr ar y Brythoniaid oedd yn byw yma ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, ac i'n hiaith ddatblygu trwy ddylanwad Lladin y Rhufeinwyr ar Frythoneg y bobl gynhenid. Roedd hyn oll, wrth gwrs ryw fil o flynyddoedd cyn i genedl ac iaith y Saeson gael eu ffurfio yn yr un modd trwy ddylanwad y Normaniaid a'u hiaith Ffrengig ar y Sacsoniaid.

Y gred gyffredin yw i'r Saeson Normanaidd goncro Cymru hefyd. Wrth gwrs, fe gollasom sawl brwydr ar y ffordd, ond y ni oedd yn fuddugol yn y pendraw ar Faes Bosworth ym 1485 pan gipiodd Harri Tudur goron Lloegr a rhoi i'r Saeson yr unig deulu brenhinol effeithiol – y Tuduriaid – fu ganddynt erioed! Camsyniad arall gan bron pawb yng Nghymru yw clodfori tywysogion Gwynedd, gan gynnwys Llywelyn Fawr a Llywelyn ein Llyw Olaf, am uno'r genedl yn erbyn y Saeson a chael amryw fuddugoliaeth drostynt.

Mae'n debyg i hyn ymddangos yn heresi i rai, ond y gwir amdani yw bod y Cymry wedi brwydro'n eithaf effeithiol yn erbyn y Normaniaid o gwm i gwm ac o gymdogaeth i gymdogaeth. Gallai'r Normaniaid ennill brwydr fan hyn a fan draw ond ni ddaethant yn agos at ddarostwng y genedl. Yr hyn wnaeth tywysogion Gwynedd oedd uno'r genedl a thrwy hynny greu byddin fwy effeithiol na'r ymgyrchoedd lleol. Ond nid oedd ganddynt obaith mewn gwirionedd guro byddinoedd llawer cryfach brenhinoedd Lloegr. A'r canlyniad? Unwaith i'r Saeson guro byddin tywysogion Gwynedd, roeddent wedi curo Cymru gyfan – yn yr

un modd ag y gorchfygwyd y Sacsoniaid mewn un dydd trwy ladd y Brenin Harold!

Ond parhaodd y frwydr yn erbyn y Sais ar ôl marwolaeth y “Llyw Olaf” – yn arbennig, wrth gwrs, gan Owain Glyndŵr. A phrin 70 mlynedd wedi iddo yntau ddiplannu, dyma Harri Tudur yn codi ei faner a’r Cymry yn heidio ato. Gellir gweld yn glir wrth ddarllen beirdd y cyfnod mai ef oedd y mab darogan a ddaeth i guro’r hen elyn unwaith ac am byth. A dyna wnaed ar Faes Bosworth. Ac fe gryfhawyd y syniad yma o waredigaeth rhag y Sacsoniaid wrth i Harri VII enwi ei fab cyntaf yn Arthur. Ond cyn bo hir, wrth gwrs, daeth y Cymry i sylweddoli iddynt gollu llawer mwy trwy ennill yr ornest filitaraidd na thrwy gollu! Efallai i dwf economaidd yr Almaen a Siapan wedi’r ail Ryfel Byd brofi yn ein dyddiau ni nad y rheini sy’n ennill y frwydr sydd bob amser yn elwa fywaf!

Cwyn arall sydd gennyf yn erbyn tywysogion Gwynedd yw iddynt geisio efelychu priodweddau cymdeithasol y Normaniaid. Un o’r rhesymau pam nad oedd y Cymry mor unedig â’r Saeson oedd ein system etifeddu. O dan y drefn Normanaidd, pan fu farw dyn, roedd ei eiddo i gyd yn mynd i’w fab hynaf tra rhennid pob dim yn gyfartal rhwng etifeddion y Cymry, gan gynnwys y merched. Roedd ein cyfraith ni, a gasglwyd ynghyd yn nyddiau Hywel Dda yn y ddegfed ganrif, ymysg y gorau yn Ewrop ar y pryd ac yn llawer mwy gwar nag eiddo’r Normaniaid.

Ond roedd Tywysogion Gwynedd yn gweld mantais iddyn nhw eu hunain trwy fabwysiadu cyfraith Normanaidd. Yr un pryd, roeddent yn aml yn cefnogi grwpiau crefyddol Normanaidd ar draul y rhai cynhenid Cymreig. Dechreuwyd y drefn o’n Seisnigeiddio ni’r Cymry gan dywysogion Gwynedd, pa un bynnag a oeddent yn ymwybodol o hynny ai peidio. A dyna pam y llosgwyd rhai abatai gan Owain Glyndŵr ychydig dros ganrif yn ddiweddarach. Difodi’r rhai Normanaidd ac achub rhai mwy Cymreig oedd ei nod yntau, yn ogystal wrth gwrs a sefydlu Senedd a dwy brifysgol i Gymru.

Yn wyrthiol, mae'r gwahaniaeth rhwng agweddau cymdeithasol y Cymry a'r Saeson wedi para i raddau helaeth hyd heddiw. Mae llawer eithriad, wrth gwrs, ond at ei gilydd buom bob amser yn fwy parod i gydnabod cyfartaledd dynion (a menywod) â'i gilydd a chefnogi cydweithredu. Nid hap yn fy marn i yw'r ffaith fod Robert Owen ymhlith y rhai cyntaf i hybu dulliau cydweithredol o weithio, neu i Henry Richard fod ymhlith y rhai cyntaf i sôn am heddwch rhyngwladol a gweithio dros sefydlu corff fyddai'n cynrychioli holl genhedloedd y byd i ddatrys problemau rhyngwladol.

Nid hap oedd y ffaith mai Lloyd George sefydlodd y pensiwn henoed a thâl di-waith, nag i Jim Griffiths sefydlu sustem o Yswiriant Cenedlaethol nac i Aneurin Bevan sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae'r agwedd yma o ofalu am ein cyd-ddyn, boed yn Gymro neu'n dramorwr, a pha bynnag label a roir arno, rywsut yn naturiol neu'n gynhenid i ni'r Cymry. Wrth ddeall hyn, deuthum i ddatblygu fy nghredo gwleidyddol, sef sosialaeth haelfrydig gymunedol a chydweithredol a rhyng-genedlaetholdeb seiliedig ar genedlaetholdeb iach. I fi, mae hynny fwy neu lai gyfystyr â democratiaeth, sydd lawer mwy na chyfundrefn o bleidleisio bob rhyw ychydig o flynyddoedd dros y blaid neu'r person sy'n llai atgas gennym na neb o'r lleill (h.y. y gyfundrefn rydym yn byw tani ar hyn o bryd).

Does dim modd rheoli'r holl fyd o un man canolig, rhaid cael haenau o lywodraeth yn ôl maint y broblem dan sylw. Yn rhy aml, mae'r pwerau mawr wedi rhannu'r byd yn genhedloedd neu wladwriaethau gwahanol ar fypwyl, neu trwy dynnu llinellau syth diystyr ar fap – a'r rhan fwyaf o'r amser er mwyn gofalu am eu buddiannau eu hunain. Mae'n amlwg i mi y dylai'r unedau fod yn rhai naturiol, organig megis cymdogaeth leol ar un raddfa, neu genedl ar raddfa arall. Dyna'r ffordd i sicrhau y gellir bodloni rhan helaeth y boblogaeth yn hytrach nag i fwyafrif bychan orfodi eu syniadau nhw ar leiafrif sylweddol. Y maen prawf pwysicaf i ddemocratiaeth yn fy nhyb i yw maint y cyfle sydd gan bobl gyffredin i ddylanwadu ar eu llywodraeth. Yn ôl yr holl fesurau yma, Cuba yw'r wlad sydd yn dod yn agosaf i'r nod, a dyna pam y bûm yn

gefnogwr brwd i Fidel Castro ac i Cuba ers 1960 ac yn dal yn weithgar ym mudiad Cymru-Cuba.

I mi, Castro oedd dyn mwyaf yr ugeinfed ganrif. Rhaid parchu Ghandi a Mandella wrth gwrs am iddynt ryddhau eu pobl o faich gormesol. Ond gwnaeth Castro fwy na hynny. Yn wyneb grym yr Unol Daleithiau a'i holl gynllwynion i'w ladd ac i ddisodli llywodraeth Cuba, llwyddodd Castro i adeiladu cymdeithas wâr sy'n rhoi addysg ac iechyd o'r safon flaenaf i bawb ac sy'n rhoi mwy o gymorth ymarferol i bobloedd eraill y byd nag unrhyw wlad arall. Byddai'n fraint o'r mwyaf i Gymru ennill hunanlywodraeth gyflawn a chael sedd nesaf at Cuba yn y Cenhedloedd Unedig!

Y prif reswm pam na allwn innau fod yn fodlon ar ymreolaeth gartref yn unig a thros gredu bod rhaid cael ein llais ein hunain yn y byd yw am fod ein dyheadau rhyngwladol ni mor wahanol i eiddo'r Sais. Ni allwn dderbyn sefyllfa lle mae'n polisi tramor ni'n cael ei benderfynu gan uned a reolir i bob pwrpas gan Loegr.

Yr Ysgol Sul a Chrefydd

Dechreuais ffurfio fy syniadau crefyddol a gwleidyddol wrth fynychu'r ysgol a'r ysgol Sul. Nid wyf yn cofio imi wneud unrhyw benderfyniad arbennig yn y naill faes neu'r llall. Nid wyf yn feddyliwr mawr athronyddol – arfer synnwyr cyffredin sydd eisiau. Yn anffodus, os nad yw hyn yn wrthddywediad, nid yw synnwyr cyffredin yn gyffredin iawn yn fy mhrofiad i! Tyfu'n naturiol wnaeth fy syniadau, yn yr un modd ag y tyfodd fy ngallu i siarad Cymraeg. Daeth y trobwynt o ran crefydd, mae'n debyg, pan wahoddwyd pawb ohonom yn nosbarth Ysgol Sul Llew Walters i ymuno'n ffurfiol â'r capel. Cydsyniodd y lleill ond gwrthodais innau, gan esbonio nad oeddwn yn gallu credu mewn duw oedd yn poeni am ffawd pob person unigol ar y ddaear. Rywbryd y pryd hynny y penderfynais fy mod yn anffyddiwr. Serch hynny, roeddwn yn dal i fynd i'r capel ac fe'm penodwyd yn Ysgrifennydd yr Ysgol Sul – ar yr amod eu bod nhw'n deall fy mod yn anffyddiwr!

Mae'n amlwg fod yna ryw ynni a greodd y bydysawd, ond ni allaf gredu bod yr ynni hwnnw ag unrhyw nodweddion dynol. Tra bod crefyddwyr yn credu i dduw greu dyn ar ei lun ei hun, mae'n ymddangos yn amlwg i mi mai dynion trwy'r oesoedd sy'n creu duwiau ar eu llun nhw. Yn aml iawn ar y dechrau roedd y duwiau hynny'n ymgais i ddehongli digwyddiadau naturiol, megis yr haul a'r lleuad, mellt a tharan, gwynt a glaw. Roedd pobl yn ofni'r pethau hyn ac yn ceisio plesio'r duwiau a lleddfau eu llid. Yn ddiweddarach dechreuwyd gwisgo'r duwiau a phriodweddau dynol – grym, dicter a chariad. Dechreusom greu duwiau ar ein llun ein hunain. Ac wrth gwrs, gellid apelio bob amser ar i dduw fod ar ein hochr ni mewn unrhyw gythrwfl â phobloedd eraill. Mae'n ymateb yn ffafriol bob tro, yn naturiol ddigon gan mai "ni" – pwy bynnag yw'r "ni" hynny – a'i creodd yn y lle cyntaf!

Nid wyf innau'n gallu deall sut y daeth y bydysawd i fodolaeth na beth sy'n cadw'r sioe ar y ffordd, fel pe tai. Ond rwy'n sicr nad yw creu stori am ryw fod dynol oruwchnaturiol yn creu'r holl beth yn cyfrannu dim at ein dealltwriaeth ond yn hytrach yn cymylu pob dim ac yn anffodus yn

arwain at garfan un duw yn mynnu mai nhw sy'n iawn ac nid carfan rhyw dduw arall.

Nid wyf yn anffyddiwr efengylaidd, os ydy'r ymadrodd yna'n gwneud synnwyr. Hynny ydy, rwyf yn ddigon parod i bobl arddel eu crefydd eu hunain os mynnant – er i mi feddwl eu bod nhw'n debyg i blant mawr sy'n dal i gredu yn y tylwyth teg neu Siôn Corn – cyhyd â'u bod nhw'n parchu pobl sy'n arddel crefyddau gwahanol. Mewn damcaniaeth, mae'r rhan helaethaf o grefyddau'r byd yn oddefgar tuag at eraill, ond yn ymarferol mae Cristnogion ac Iddewon a Mwslimiaid a Marxiaid ac eraill wedi bod yn anoddefgar iawn, a hynny wedi esgor ar ryfeloedd ac erchyllterau o bob math. Hwyrach na fyddai dar fod holl grefyddau'r byd yn datrys ein holl broblemau rhyngwladol, ond mi allai gyfrannu at hynny!



Dr William George yn cyflwyno'r fflam i redwyr ar eu ffordd i rali dros Senedd i Gymru yng Nghaerdydd yn 1953. Ymhlith y rhedwyr mae Chris Rees (chwith) ac Emrys Roberts (dde).

Gwleidyddiaeth – Etholiad 1945 a gwrthwynebu consgripsiwn

Yn y blynyddoedd wedi'r rhyfel bu Mahatma Ghandi yn arwr i mi a'i lofruddiaeth ym 1948 a'm hysgogodd gyntaf i geisio sgrifennu barddoniaeth. Fy ngweithred wleidyddol gyntaf, efallai, oedd gwrthod cymryd rhan mewn drama yng Nghapel Minny St a gynhyrchwyd gan Rachel Hywel Thomas, oedd yn dechrau gwneud enw iddi ei hun ar y radio ac a ddaeth yn actores go enwog yn fuan wedyn. Nid wyf yn cofio'r manylion, ond teimlais ar y pryd fod y ddrama'n pardduo cenedl yr Almaenwyr – hy y genedl gyfan heb geisio gwahaniaethu rhwng y ffasgiaid ac Almaenwyr cyffredin.

Fy nghof cyntaf am wleidyddiaeth plaid oedd yr etholiad cyffredinol ym 1945, pryd y gobeithiwn y byddai'r Blaid Lafur yn ennill, fel y gwnaethant yn ysgubol wrth gwrs. Rwy'n cofio un bachgen yn ein dosbarth ni yn yr ysgol yn dweud iddo gefnogi'r Toriaid. Roeddwn yn synnu'n fawr fod neb mor hy a digywilydd a chydabod hynny. Byddai hynny'n rhywbeth i gywilyddio amdano yn fy nhyb i. Erbyn hyn, i'm syndod weithiau, rwyf wedi cwrdd ag amryw o bobl ffeind sy'n arddel Toriaeth, ond rwy'n dal i feddwl fod yr athroniaeth yn ffaidd.

Wedi'r cyfan, sail cyfalafiaeth yw'r gred bod arian yn bwysicach na phobl ac y dylai arian reoli dynion yn hytrach nag i ddynion reoli arian. Mae lle mawr i drafod sut yn union y dylid rheoli arian a masnach rhwng dynion a'i gilydd a sut y dylid trefnu cymdeithas. Ond ni welaf unrhyw sail derbyniadwy i'r gred mewn cyfalafiaeth sydd yn darostwng bodau dynol a'u gwneud yn unedau masnachol.

Dwyf i ddim yn cofio pryd y deuthum yn ymwybodol am fodolaeth Plaid Cymru. Ym 1943 roedd y siop yn Heol y Crwys wedi'i gwerthu a'n nhad yn chwilio am waith. Roedd e'n gobeithio mynd i weithio mewn melin wlân yn Drefach, Felindre gyda chyfaill lliwgar o wlad Tsiec, Gustav Brdic. Gwnaeth ymholiadau a fyddai modd i Megan a minnau fynd i Ysgol Llandysul. Ond methodd â chael hyd i gartref yn yr ardal ac yn y pendraw cafodd swydd clerck a Chyngor Morgannwg a symudsom i gartref newydd yn Monthermer Rd, nepell o'r siop yn Heol

y Crwys, Caerdydd. Yn y cyfamser, aethom i fyw gyda Modryb Bet a Dewyrth Griffith John yng Ngwaelod y Garth a chan fod y pentref o'r tu allan i ffiniau Caerdydd y pryd hynny, bu raid i mi symud am dymor o Ysgol Cathays i Ysgol yr Eglwys Newydd, oedd hefyd o'r tu allan i'r ddinas.

Erbyn hyn roedd Megan a mi'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg â Modryb a Dewyrth. Efallai mai'r pryd hynny y deuthum i wybod am Blaid Genedlaethol Cymru, fel y'i gelwyd ar y pryd. Yn nhŷ Modryb Beth a Dewyrth GJ, oedd yn byw ym Mhenarth ar y pryd, y cyfarfu grŵp bychan o genedlaetholwyr ym 1924 a 1925 a ymunasant â grŵp tebyg o'r gogledd yn Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli ym 1925 i ffurfio Plaid Genedlaethol Cymru. Yn wir mae cofnodion cyfarfod cynta'r grŵp yn Ionawr 1924 – yn ysgrifen fy Modryb – yn fy meddiant i erbyn hyn. Y tri arall oedd yno oedd GJ ei hun wrth gwrs, Saunders Lewis ac Ambrose Bebb.

Dros y blynyddoedd, daeth cartref Modryb Bet a Dewyrth GJ yn Bryn Taf, Gwaelod-y-Garth yn bwysig yn natblygiad sawl mudiad arall. Yno y trafodwyd sefydlu'r Ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghaerdydd (dan yr enw Bryn Taf) a chofiaf drafodaethau am sefydlu Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru a Gwyn Daniel ac Amgueddfa Werin i Gymru a Iorwerth Peate.

Yn naturiol ddigon, felly, y tyfais innau'n genedlaetholwr. Wrth imi adael yr ysgol ym 1949 roedd gorfodaeth filwrol yn dal mewn grym. Roedd y rhan fwyaf o'm cyfeillion a minnau'n wrthwynebwyr cydwybodol. Roedd y lleill yn seilio eu gwrthwynebiad ar heddychiaeth, a chawsant eu rhestru yn wrthwynebwyr cydwybodol yn ddiffwdan. Ond penderfynais innau ddadlau'r achos cenedlaethol (er i mi fod yn heddychwyr hefyd) – sef nad oedd hawl gan y wladwriaeth Seisnig i'm gorfodi i ymladd eu rhyfeloedd nhw (roedd byddin Lloegr yn ymladd yn Korea ar y pryd ac ni welwn fod gan Loegr hawl i ymyrryd yn y ffrae honno beth bynnag). Ar ben hynny, roedd mwyafrif llethol yr aelodau seneddol Cymreig wedi pleidleisio yn erbyn gorfodaeth filwrol

mewn adeg o heddwch, felly roedd fy safiad yn unol a dymuniad ein cynrychiolwyr democrataidd!

Ni thyciodd y dadleuon hynny o flaen y tribiwnlys yng Nghaerdydd. Aethant braidd yn wyllt pan gofynnodd menyw ar y panel gan fy mod yn erbyn y wladwriaeth Brydeinig paham yr oeddwn yn was sifil yn y Bwrdd Cymorth Cenedlaethol. Y gwir amdani yw y bu raid imi aros dros ddwy flynedd i fynd o flaen y tribiwnlys a dyna'r unig waith oedd ar gael imi ar y pryd. Ond yr ateb a roddais oedd bod rhaid i ni gael gweision sifil profiadol i redeg gwladwriaeth Gymreig unwaith inni ennill ein rhyddid. Gwrthodwyd fy nghofrestru, er i'r panel fynegi ar goedd iddynt dderbyn fy mod yn ddiffuant yn fy naliadau.

Yn ôl y gyfraith, os oedd rhywun yn gydwybodol yn ei wrthwynebiad, dylid ei gofrestru. Nid oedd sôn am hawl gan y panel i ystyried a oedd fy naliadau'n dderbyniol iddynt ai peidio. Felly aethom a'r achos i dribiwnlys apêl yn Llundain, lle cefais fy nghynrychioli gan Hywel ap Robert – mab yr annwyl RJ Jones, Gweinidog Minny St, a ddaeth yn fargyfreithiwr amlwg ac yn ymgeisydd seneddol dros y Blaid yng Ngheredigion flynyddoedd wedyn.

Roedd y panel yn gwrando ar nifer o apeliadau'r un dydd ac ar ddiwedd y dydd, rhoesant eu dyfarniad ar bob un, ar wahân i fi! Bu raid inni aros rai wythnosau nes cael y wybodaeth iddynt wrthod fy apêl. Mae'n amlwg i fi nad oedd y panel am wneud penderfyniad yn fy achos i ond am gael cyfarwyddyd gan eu meistri gwleidyddol. (Flynyddoedd maith wedyn, cefais fy hunan yn cynrychioli Cymru ar Gyngor Tribiwnlysoedd y llywodraeth. Ein gwaith oedd cynghori'r llywodraeth ar bwerau addas i dribiwnlysoedd newydd a'u dull o weithredu a monitro safon y gwaith a wnaed gan dribiwnlysoedd o bob math – o dribiwnlysoedd cyflogaeth, i dribiwnlysoedd ymfudwyr, tribiwnlysoedd iechyd meddwl, tribiwnlysoedd budd-daliadau ac yn y blaen. Pe bai'r Cyngor wedi bod mewn bodolaeth adeg fy Nhribiwnlys Apêl ym 1952, mae'n siŵr y byddent wedi gofyn rhai cwestiynau miniog iawn ynglŷn â'r modd y daeth y tribiwnlys arbennig hwnnw i'w benderfyniad!).

Carchar: 1952

Canlyniad hyn oll oedd dedfryd o dri mis yng ngharchar Caerdydd dros haf 1952. Mewn gwirionedd, dyna oeddwn wedi'i ddisgwyl o'r dechrau. Mae rhai wedi galw hyn yn safiad dewr. Ond a bod yn onest, dyna oedd fy nheulu'n ei ddisgwyl hefyd – nid yn unig yn rhagweld, ond yn disgwyl ohonof i. Buasai'n safiad dewr pe bawn i wedi peidio â gwireddu'r disgwyliaidau hynny!

Roedd rhyw 8 neu ddeg ohonom yn cael ein derbyn i garchar Caerdydd yr un pryd. Ar ôl tynnu'n holl ddillad a chael cawod – go oer os ydw i'n cofio'n iawn – bu raid i ni sefyll mewn rhes ar ganol y carchar i dderbyn cyfarwyddiadau gan un o'r swyddogion. Roeddwn innau'n sefyll nesa at fachgen nad oedd ei glyw e'n rhy dda a dyma fe'n gofyn i fi beth oedd y swyddog yn ei ddweud. Gwaeddodd y swyddog arno i dewi, ond roedd yn dal i droi ataf i am eglurhad. Yn ddisymwth, disgynnodd haid o swyddogion eraill arno, dwn im o ble, ei fwrw fe'n ddirugaredd a mynd ag e bant.

Welais mohono fe byth eto, a does gennyf ddim syniad beth ddigwyddodd iddo.

O leiaf yr adeg honno roedd gennym gellau ar wahân. Y Sadwrn cyntaf, rywsut a minnau heb ymgyfarwyddo a'r drefn yn iawn, llwyddais gloi fy hunan yn fy nghell ar ôl brecwast yn lle mynd i'r iard i ymarfer gyda'r carcharorion eraill. Ychydig cyn amser cinio, agorwyd y gell gan un o'r swyddogion cyn i'r carcharorion eraill ddod i mewn o'r iard. Well i ti nol dy fwyd yn syth, meddai wrthyf, a phan wyt ti yno beth am ddwyn darn o bysgod i fi? Roeddwn i'n meddwl eich bod chi yma i berswadio pobl i beidio â lladrata, meddais wrtho, nid eu hannog i wneud hynny – a gwrthodais. Doeddwn i ddim yn un o ffefrynnau'r swyddog arbennig hwnnw wedi hynny! Ond roedd rhai yn ddigon caredig. Roedd un yn arbennig yn dod â newyddion o'r Eisteddfod Genedlaethol i fi yn gyson.

Roeddwn yn adnabod rhai o'r carcharorion eraill oedd wedi bod yn "gwsmeriaid" yn swyddfeydd y Cymorth Cenedlaethol (rhagflaenydd

swyddfeydd budd-daliadau). Daethant lan ataf yn llawn edmygedd gan feddwl i mi dwyllo'r sustem allan o arian mawr. Es i lawr yn sydyn yn eu golwg pan ddaethant i wybod pam roeddwn i yno!

Ond y peth mwyaf cofiadwy – a mwyaf erchyll – a ddigwyddodd pan oeddwn yn y carchar oedd crogi'r dyn olaf yng ngharchar Caerdydd, Somali oedd wedi ei gyhuddo o ladd rhywun mewn siop yn Nociau Caerdydd. Fe'i dyfarnwyd i farwolaeth ar sail tystiolaeth rhywun a gafwyd yn euog rai blynyddoedd wedyn am ddynladdiad tebyg. Rwy'n deall hefyd i'r heddlu wrthod derbyn tystiolaeth o'r ochr arall gan fenyw am iddi gael triniaeth am salwch meddwl. Cafodd cyfaill imi sgwrs flynyddoedd wedyn a'r heddwes oedd yn gyfrifol am fynd ag e i'r llys. Dywedodd iddi feddwl bod amheuaeth ynglŷn â'r dyfarniad. Dywedodd yntau, mae'n debyg, Wel beth yw'r ots? Roedd e'n ddihiryn nad oedd yn haeddu byw beth bynnag! Flynyddoedd maith ar ôl hynny, wrth gwrs, cafwyd cydnabyddiaeth nad oedd yn euog a rhoddwyd pardwn swyddogol iddo. Os oedd angen unrhyw beth i'm perswadio na ellid cyfiawnhau'r ddedfryd eithaf, dyma fe. Cam dybryd na ellid ei ddatod ac a ddinistriodd fywyd ei wraig a'i deulu.

Ar ben hynny, roedd y modd yr aethpwyd ati i gael gwared ar ei gorff yn erchyll. Roedd dynion a merched yng ngharchar Caerdydd y pryd hynny – yn cael eu cadw'n gyfangwbl ar wahân, wrth gwrs. Rhennid gardd y carchar yn ddau hefyd â pherth go fawr i'w gwahanu. Roeddwn wedi sylwi cyn hynny fod rhan o'r berth yn edrych yn farw, ond ni wyddwn pam. Pan ddyfarnwyd y dyn druan i farwolaeth, fe'i gadwyd mewn cell arbennig, gyda ffenest lawer mwy na'r gweddill ohonom. Roedd tri llanc ifanc – deunaw a phedair ar bymtheg oed – o dras Somali yn y carchar ar y pryd yn euog o ymosod ar rywun yn ffyrnig (GBH). Rhoddwyd iddynt y dasg o symud y berth farw, palu twll yno ac wedyn nôl calch poeth i'w daflyd yn y twll yn barod i dderbyn corff y dyn "euog". Roeddem ni'r carcharorion eraill yn gallu ei weld e yn ei gell yn gwylio hyn oll yn digwydd. Dwy erioed wedi teimlo ias mor oer yn unman a chredaf i bawb arall yn y carchar ar y pryd deimlo'r un peth. Cymdeithas war yn wir!

Coleg – ac areithio'n gyhoeddus

Rhoddwyd y sac i fi o'r gwasanaeth sifil, wrth gwrs, yn sgil mynd i'r carchar felly wrth ddod allan roeddwn yn ddi-waith. Roeddwn yn ffodus i gael fy nerbyn yn fyfyrwr yng Ngholeg y Brifysgol Caerdydd i astudio'r Gymraeg, Hanes a Saesneg. Dwn i ddim pa mor o ddiffri oeddwn ynglŷn â'r pynciau yna. Penderfynais mai'r peth pwysicaf i hyrwyddo'r Gymraeg a phethau Cymreig yng ngholeg Caerdydd fyddai cael fy ethol yn Llywydd y Myfyrwyr ac ymunais â phob math o gymdeithasau myfyrwyr er mwyn hyrwyddo'r nod yna. Un o'r cymdeithasau pwysicaf y pryd hynny oedd y Gymdeithas Ddadlau. Roeddwn eisoes wedi ennill cystadleuaeth siarad cyhoeddus i ddisgyblion Caerdydd – a'r Western Mail yn fy nghymharu â Winston Churchill (dwn i ddim faint o glod oedd hynny). Beth bynnag, mynychais y dadleuon yn y coleg a siarad yno bron bob Nos Wener. Roedd safon y dadlau'n bur uchel mae'n debyg. Dywedodd rhywun wrthyf flynyddoedd wedyn i fyfyrwyr prifysgol Exeter logi bws bron bob wythnos i ddod i wrando arnom! Roedd y dyddiau hynny'n baratoad da ar gyfer siarad yn gyhoeddus. Rwy'n dal yn gyfeillgar a rhai o aelodau amlwg y gymdeithas ar y pryd, megis Mair Rees (Garside yn fuan wedyn) a Brian Watkins.

Yn sgil y dadleuon hynny deuthum yn siaradwr cyhoeddus bur effeithiol. Yn y blynyddoedd wedyn, yn ogystal â rhannu llwyfan â'r rhan fwyaf o arweinwyr y Blaid, bûm yn dadlau'n gyhoeddus ag amryw siaradwr go adnabyddus gan gynnwys Jim Callaghan, George Thomas, Michael Foot, Arthur Scargill, Clive Jenkins, Leo Abse, Leon Brittain, Jim Sellars a Margo MacDonald. Roeddwn i a'r pedwar diwethaf yma ymhlith y prif siaradwyr mewn dadl a deledwyd yn fyw o Undeb Rhydychen adeg refferendwm 1979. Roedd Michael Foot a minnau ar banel y rhaglen radio Unrhyw Gwestiwn hefyd rai blynyddoedd cyn hynny (Teddy Johnson o'r Blaid Doriaidd ac Antonia Fraser oedd y panelwyr eraill). Roedd Michael a minnau'n gytûn ar bron pob peth!

Mae rhai areithiau'n sefyll yn y cof, eraill ddim wrth gwrs. Doeddwn i byth yn sgrifennu araith nag yn darllen nodiadau – dyna pam y'm cyffelybwyd â Churchill gan y Western Mail, mae'n debyg. Roedd eraill yn fy nghyffelybu â Lloyd George ar ôl hynny, ac roedd hynny'n llawer mwy derbyniol! Ymysg yr areithiau sy'n aros yn y cof oedd un yng nghynhadledd y Blaid ym Mhafiliwn Patti, Abertawe pan fuom yn trafod a ddylem gefnogi refferendwm 1979. Roeddwn innau'n credu na ellid disgwyl ennill hunanlywodraeth mewn un cam, bod angen ennill brwydr fan hyn a fan draw (yn debyg i'r ffordd roeddem wedi gwrthsefyll y Normaniaid gynt!) ac y byddai'n andwyol i ni beidio â gweithio dros y bleidlais le uchaf bosibl. Ond roedd yr holl ddadl yn mynd yn erbyn y safbwynt hwnnw yn y Gynhadledd ac roeddem mewn perygl o golli'r dydd. Llwyddais berswadio'r Gynhadledd i gefnogi'm safbwynt i.

Wedi canlyniad siomedig y refferendwm aeth rhai ati i ddadlau inni wneud y penderfyniad anghywir – a'm beio fi oherwydd hynny! Ond doedd yr aelodau ddim yn meddwl hynny ar y pryd. Yn wir, fe'm hetholwyd yn Is-Lywydd y Blaid y flwyddyn honno (doeddwn i ddim yn awyddus i sefyll ond fe'm perswadiwyd i wneud gan Gwynfor Evans. Ceisiais drafod gydag ef beth oedd dyletswyddau'r swydd, ond heb fawr ymateb). Y gwendid mawr gyda'r refferendwm honno oedd nad oedd y Blaid Lafur wedi gwneud llawer i ennill cefnogaeth i'w pholisi ei hun a phrin iawn hefyd oedd aelodau'r Blaid a wnaeth ymdrech sylweddol i gael y bleidlais fwyaf bosibl. Rwy'n dal i gredu inni wneud y penderfyniad iawn. Ein ffaeidd oedd peidio â gweithio'n egniol yn yr ymgyrch.

Areithiau eraill sy'n aros yn y cof yw hwnnw a wnes yn fy nghyfarfod mabwysiadu'n ymgeisydd y Blaid yn isetholiad Merthyr ym 1972 (pan oedd rhai yn y gynulleidfa'n chwerrthin un munud, bloeddio cymeradwyaeth y munud nesaf a llefain y munud ar ôl hynny) a dau a wnes yn Undeb y Myfyrwyr yng Nghaerdydd. Achlysur ymosodiad Prydain a Ffrainc ar Gamlas Suez ym 1956 oedd un. Enillasom y ddadl yn condemnio'r ymosodiad, ac wedi'r ddadl dyma'r myfyrwyr, lawer ohonynt o'r Dwyrain Canol, yn gorymdeithio trwy Gaerdydd a fflaglau yn eu dwylo a minnau ar eu hysgwyddau.

Adeg arall ym 1962 ar ôl gadael y coleg, cefais fy ngwahodd i ddadlau a ddylid cadw milwyr Prydeinig yng Ngogledd Iwerddon. Roeddwn i'n siarad yn erbyn hynny, a Neil Kinnock yn siarad drosto (wnes i ddim ei gynnwys ef ymhlith y siaradwyr amlwg y bûm i'n siarad ar yr un llwyfan a nhw achos doeddwn i byth wedi ei ystyried yn siaradwr da - siaradai'n faith a gwaedu'n aml, ie, ond dyw hynny ddim cyfystyr â bod yn siaradwr effeithiol). Daeth y newydd i Kennedy gael ei saethu yn Dallas yng nghanol y ddadl honno. Cawsom hoe fach ac yn ôl wedyn i orffen y ddadl – yn fuddugoliaethus rwydd i'n hochr ni. Ond nid dyna sut mae Kinnock yn dweud yr hanes. Mae e'n dweud mai pwnc y ddadl oedd Sosialaeth ac mai ef enillodd!

Pan ymddiswyddais i ymladd isetholiad Merthyr, ceisiodd Gwilym Prys Davies, oedd yn Gadeirydd effeithiol iawn i'r Bwrdd ar y pryd a gŵr yr oedd gennyf barch uchel iawn iddo, fy mherswadio i beidio â rhoi'r gorau i'r swydd. Roedd Gwilym bob tro yn mynnu safonau uchel iawn. Cefais erioed ganmoliaeth uwch na phan ddywedodd wrth y Prif Swyddog Meddygol am un ddogfen a baratoais iddo yn barod at gyfarfod ar gynlluniau ad-drefnu gwasanaethau yn y gogledd, ei bod yn “briff cyfreithiwr gwych”.

Tric go effeithiol wrth siarad yn gyhoeddus yw arwain y gynulleidfa i feddwl eich bod chi'n mynd ar ôl un trywydd, ond wedyn newid yn sydyn i drywydd arall. Rwy'n cofio unwaith yng Nghynhadledd y Blaid aethom i drafod rhai pethau ffôl roedd Tony Benn wedi eu dweud am genedlaetholdeb. Roedd sawl un wedi ei feirniadu'n llym, felly es innau i'r llwyfan a'i glodfori am ei safiad ar nifer o achosion. Sylwais fod Winnie Ewing o'r SNP yn dechrau edrych yn bryderus iawn arnaf. Ond wedyn y “punch-line” ys dywed y Sais: Mae calon Tony Benn yn y lle iawn, meddais – ond rwyf yn poeni am gyflwr ei ben. A dyna Winnie a holl aelodau'r Blaid yn gallu anadlu'n rhydd eto!

Yn ôl i'r coleg: ces fy ethol yn Llywydd Undeb y Myfyrwyr yng Nghaerdydd ar gyfer y flwyddyn 1954/55. Nid oedd y fath beth â Blwyddyn Sabothol y pryd hynny. Bu raid i mi gymryd at

arweinyddiaeth y myfyrwyr, gan gynnwys symud ein holl weithredoedd o Park Place i adeilad newydd (i ni) yn Dumfries Place, a gwneud fy mlwyddyn anrhydedd mewn hanes yr un pryd. Roeddwn yn gobeithio gwneud anrhydedd yn y Gymraeg y flwyddyn wedyn. Ymunodd yr Athro Chrimes a'r adran hanes y flwyddyn honno, ac er nad oedd yn darlithio i ni'n rheolaidd, cawsom ambell ddarlith yn ffafr fawr ganddo! Rwy'n cofio un yn arbennig ar hanes cyfansoddiadol Lloegr.

Roeddwn wrthi'n cymryd nodiadau'n eiddgar iawn a'r athro'n amlwg wedi'i blesio bod un o'r myfyrwyr mor ddiwyd. Dyma fe'n cerdded o'r tu ôl imi ac edrych dros fy ysgwydd. Doedd e ddim mor fodlon pan sylwedolodd i mi gymryd y cyfan i lawr mewn rhigwm ysgafn, direidus! Doeddwn i ddim yn ffeffryn iddo yntau chwaith! Ar ôl yr arholiadau terfynol dywedodd wrthyf, Eich traferth chi, Roberts, yw eich bod chi'n ceisio deall hanes. Y cyfan sydd eisiau yw'r ffeithiau! Na, doedd safon yr adran hanes (neu o leiaf y rheini roeddwn innau'n ymhél a nhw), ar wahân i'r bonheddwr Henry Lloyn, ddim yn uchel iawn yr adeg honno! Roeddwn yn ffodus i waith arholiad ddod yn weddol rhwydd i fi o'r ysgol uwchradd ymlaen, a chefais radd anrhydedd 2A heb orfod gwneud llawer o waith.

Fy mhenbleth fwyaf tra'n Llywydd y Myfyrwyr oedd sut i ymateb i ymweliad Dug Caeredin â'r Undeb. Penderfynais, yn gywir neu'n gam, i beidio â boicotio'r ymweliad ond ei groesawu'n Is-Ganghellor y Brifysgol yn hytrach nag yn Ddug Caeredin a phriod y frenhines. Wrth fynd i mewn i'r neuadd i annerch y myfyrwyr roedd yn bryderus iawn gan na wyddai ble oedd y swyddog oedd â chopi o'i araith. Bu raid i mi ei dawelu a chael hyd i'r araith. Ond wedi cael y copi yn ei law, edrychodd e ddim arno unwaith.

Un o'r pethau mwyaf cofiadwy ynglŷn â'i ymweliad oedd adwaith y myfyrwyr pan ddywedodd, wrth ganmol addysg uwch, "It's brains you want". Dyma'r dorf yn chwerthin ac yn bloeddio eu cymeradwyaeth, ac yntau'n troi ataf a gofyn pam y fath ymateb i ddywediad digon dinod? Esboniais iddo wedi'r cyfarfod mai Brains oedd enw cwrw Caerdydd ac mai "It's Brains you want" oedd eu slogan hysbysebu a welwyd ar

draws y ddinas! Clywais e'n sôn am yr achlysur ar y radio ryw 30 mlynedd wedyn wrth i rywun ofyn iddo am ei adwaith i'r haerriad ei fod e, wrth siarad yn gyhoeddus, yn aml yn rhoi ei droed yn ei geg ys dywed y Sais. Mae'n amlwg i'r achlysur greu tipyn o argraff arno ef yn ogystal ag ar y myfyrwyr oedd yn brwydro am yr hawl i gael bar yn yr undeb ar y pryd.

Bu raid imi ymddangos gerbron llys llywodraethwyr y coleg i ddadlau'r achos yna, yn aflwyddiannus ar y pryd. Corff digon Ceidwadol a dof oedd Llys y Llywodraethwyr. Deuthum yn aelod ohono rai blynyddoedd wedyn pan yn aelod o Gyngor Merthyr Tudful. Wedi cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol mewn un cyfarfod blynyddol, gofynnodd y cadeirydd a oedd unrhyw gwestiwn. Edrychodd yn syn pan ddywedais yr hoffwn innau ofyn cwestiwn – doedd neb wedi baeddu gwneud y fath beth o'r blaen.

Plaid Cymru – ymgyrchu yn isetholiad Aberdâr, 1954

Rhaid cyfaddef na allaf feddwl am unrhyw fuddugoliaeth nodedig i genedlaetholdeb nac i'r Gymraeg yn deillio o fod yn Llywydd y Myfyrwyr. Ond efallai bod hynny'n elfen wrth dynnu sylw rhai o arweinwyr y Blaid ataf. Cefais fy newis yn un o garfan fechan o fechgyn ifainc a redodd o Fachynlleth i Gaerdydd, yn cyfnewid fflag o un i'r llall ar hyd y daith. Roedd yn rhan o Ymgyrch Senedd i Gymru o Fewn Pum Mlynedd, a ninnau'n rhedeg o safle Senedd Glyndŵr i'r ddinas lle y gobeithiem godi senedd newydd. Mae gennyf gof annwyl iawn am redeg gyda'r hwyrnos wrth lan y môr ym Mae Ceredigion, a'r cysgodion yn neidio lan a lawr mewn cytgod a'm rhedeg. Cefais hefyd y fraint o gario'r fflag i mewn i'r Rali fawr yng Ngerddi Soffia.

Ym 1954 cefais gynrychioli myfyrwyr Caerdydd mewn gŵyl ryngwladol i bobl ifainc a myfyrwyr yn Farsiafe (Warsaw). Cefais fy hunan yn arwain côr o Gymry mewn Palas Diwylliant enfawr a darllen barddoniaeth a sgrifennais am ddiffyg heddwch ar Radio Moscow – gofynsant wedyn am hawl i'w chyfieithu i Rwseg, ond dwn i ddim a wnaed hynny ai peidio. Rwy'n cofio hefyd weld y Balet Llyn yr Elyrch ar ynys fechan mewn parc yno, gydag elyrch go iawn yn nofio rhwng y llwyfan a'r gynulleidfa oedd yn gwyllo o'r lan. Tra yno, rhoesom help llaw i ail osod cerrig crwn bychain yn wyneb newydd i rai o brif strydoedd y ddinas.

Y flwyddyn honno hefyd, gwnes fy araith gyntaf dros y Blaid – yn cefnogi Gwynfor Evans yn Hirwaun. Fe oedd Ymgeisydd y Blaid yn Isetholiad Aberdâr. Ddwy flynedd wedyn, cefais fy newis yn Ymgeisydd yn Isetholiad Casnewydd. Dychwelais o'm mis mel i ymladd y frwydr a chael blas mawr arni, gan gynnwys dysgu sut i ddefnyddio uchelseinydd yn effeithiol yn yr awyr agored. Ymateb rhan helaeth o drigolion Casnewydd y pryd hynny oedd Pam ych chi'n ymladd yma? Mae Casnewydd yn Lloegr. Cefais lai na dwy fil o bleidleisiau, ond rwy'n hoffi meddwl inni blannu rhai hadau'r pryd hynny. Fawr neb yng Nghasnewydd erbyn heddiw fyddai'n dadlau nad yw'r ddinas yn rhan o Gymru.

Ni roddwyd caniatâd imi wneud cwrs anrhydedd yn y Gymraeg ar ôl gwneud un mewn hanes. Ond yn y pendraw cefais ganiatâd i wneud ymchwil yn yr Adran Gymraeg a'r pwnc a ddewisais oedd Dylanwad Llenyddiaeth a'r Wasg Gymraeg ar dwf ymwybyddiaeth Gymreig yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Cyn i'r caniatâd ddod trwodd cefais waith am rai misoedd a chwmmi Guest, Keen & Nettlefolds yn nociau Caerdydd. Roeddwn yn "Fitter's Mate" a'n gwaith oedd adeiladu simne fawr fetel newydd. Roedd darnau ryw 10 troedfedd o hyd a gwefusau arnynt, a'r cyfan oedd rhaid gwneud oedd bolltio un darn wrth yr un oddi tanodd, tua 12 bollt ymhob darn. Dyna'r cyfan wnaeth y ddau ohonom mewn cyfnod o 12 awr, sef bolltio un darn wrth ddarn arall a dim mwy – dau ohonom i dynhau un bollt bob awr. Doedd y ffiter ddim yn gallu cario ei offer ei hun, rhaid i'r mêt wneud hynny: a doeddwn i ddim yn gallu tynhau'r bolltau – gwaith ffiter oedd hynny! Pryd hynny y gwelais nad yw diwydiant preifat bob amser gymaint â hynny'n fwy effeithiol na gwasanaethau cyhoeddus!

Yng ngweithfeydd GKN hefyd y ces fy mraw gwaethaf erioed. Un tro, pan oedd criw bach ohonom yn gweithio yn y felin a gynhyrchai sribedi main o ddur i atgyfnerthu concriid, aethom i eistedd ar bentwr o hen sliperi rheilffordd i gael ein paned. Tra yno, dyma un o'r sribedi crasboeth goch yn dod oddi ar y rheiliau, neidio allan o'r felin gerllaw a saethu reit trwy'r sliperi roedden ni'n eistedd arnynt. Ychydig fodfeddi'n uwch a byddai wedi mynd trwy gyrff tri ohonom! Doedd dim llawer o sôn am lechyd a Diogelwch y dyddiau hynny!

Ym 1957, rai misoedd ar ôl dechrau ar y gwaith ymchwil, cefais sgwrs hir â Gwynfor Evans. Roedd Capel Celyn a Chwm Tryweryn dan fygythiad gan Gorfforaeth Lerpwl erbyn hynny, ac fe'm perswadiwyd gan Gwynfor i roi'r gorau i'm gwaith ymchwil ac ymuno a staff y Blaid yn unswydd i drefnu gwrthdystiadau uniongyrchol yn erbyn y cynllun. Dyna oedd dechrau fy mherthynas â Gwynfor.



Swyddogion y Blaid yn ystod Rali yn y Rhos yn 1953:
Gwynfor Evans, Emrys Roberts, Glenwen Evans, Nans Jones
Elwyn Roberts a Glyn James

Gwynfor Evans, Isetholiad Glyn Ebwy 1960 a Radio (anghyfreithlon!) y Blaid

Beth sydd i'w ddweud am Gwynfor? Hmm!

Y peth cyntaf, mae'n debyg, yw'r ffaith – er i mi fod ar staff y Blaid o 1957, yn Ysgrifennydd Cyffredinol y Blaid o 1960 hyd 1964, yn Is-Lywydd i Gwynfor o 1978 i 1980 a siarad ar lawer llwyfan wleidyddol gydag e – nad oeddwn erioed yn ei adnabod e. Roedd ganddo griw o gyfeillion y bu'n cwrdd â nhw'n weddol reolaidd yn Nhalar Wen – ei gartref yn Llangadog (Llys Llangadog fel y daeth rhai i'w galw'n ddiweddarach) – ac mae'n siŵr i rai o'r rheini ddod i'w adnabod a threiddio trwy'r masg a wisgai'n gyhoeddus. Fûm i erioed yn rhan o'r grŵp yna. Roeddwn yn ei chael hi'n anodd cael unrhyw ymateb ganddo i unrhyw awgrym am bolisi neu weithred. Bu'n ffigwr dau-ddimensiwn i mi erioed.

Wrth i'r ymgyrch yn erbyn boddi Tryweryn fynd yn ei flaen, dechreuwyd casglu enwau aelodau fyddai'n barod i gymryd rhan mewn gweithredoedd uniongyrchol. Clywais un aelod yn ystod Ysgol Haf yn mynegi amheuan wrth sgwrsio â Tudur Jones, Is-Lywydd y Blaid ar y pryd, am y dull yma o weithredu. Peidiwch â phoeni, dydyn ni ddim o ddifri, meddai yntau. Ystryw i geisio cadw criw anniddig yn ddistaw yw e, a dyna'r cwbl.

Ymhen amser, dyma Bwyllgor Gwaith y Blaid yn gofyn i grŵp o aelodau gyfarfod i drafod y dulliau gorau o weithredu'n uniongyrchol ac i ddod ag argymhellion yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith. Cyfarfu 20 neu fwy ohonom yn y Llew Gwyn yn Nolgellau. Ond yn lle mynd ati i drafod pa weithrediadau fyddai fwyaf effeithiol, dyma Gwynfor yn dadlau y byddai unrhyw weithred o'r fath yn andwyol i'r Blaid. Ceisiais innau ddadlau i'r gwrthwyneb ond yr unig un yno a gefnogodd fy safbwynt oedd Pedr Lewis. Cytunodd pawb arall â Gwynfor.

Roeddwn yn siomedig, wrth gwrs, ond roedd rhaid imi dderbyn barn y mwyafrif. Disgwylwn gyfle arall i ddadlau fy safbwynt wrth i

argymhellion y cyfarfod gael eu trafod yn y Pwyllgor Gwaith. Ond chefais mo'r cyfle. Yr wythnos wedyn, cyn i'r Pwyllgor Gwaith gyfarfod, cyhoeddodd Gwynfor i'r wasg i'r Blaid newid ei pholisi ac nad oedd am ystyried gweithredoedd uniongyrchol yn y dyfodol ond yn hytrach y byddai'n glynu wrth ddulliau gwleidyddol traddodiadol.

Roedd gwneud hynny, i'm tyb i, yn anghyfansoddiadol ac yn annemocrataidd am nad oedd y Pwyllgor Gwaith wedi cael cyfle i drafod y mater. Roeddwn yn meddwl yn ddwys am ymddiswyddo – wedi'r cyfan roeddwn wedi cael fy mhenodi'n unswydd i drefnu gweithredoedd uniongyrchol. Roeddwn i a rhai o'r rheini oedd wedi dynodi eu parodrwydd i gymryd camau uniongyrchol wedi penderfynu ymprydio ar risiau neuadd y ddinas yn Lerpwl. Ond cawsom ein perswadio gan Gwynfor i beidio â gwneud hynny. Erbyn hyn, mae hynny'n ymddangos yn eironig gan iddo yntau ennill ei frwydr bennaf wrth fygwth ymprydio yn achos sianel teledu i Gymru. Ond derbyniaf fod yna wahaniaeth mawr rhwng y ddau achlysur. Roeddem ni'n grŵp o ddynion a merched ifainc dinod ddechrau'r chwedegau, tra roedd Gwynfor yn rhywun o bwys cenedlaethol erbyn ei safiad ar y Sianel Deledu.

Yn sgil diffyg unrhyw weithred bendant gan y Blaid, fe ffurfiwyd Cymdeithas yr Iaith. I'm tyb i, y Gymdeithas a roddodd rywfaint o barch yn ôl inni yn genedl a dyna achubodd Gymru. Oni bai am y Gymdeithas, mae'n bur debyg mai ôl-nodyn mewn llyfrau hanes byddai cenedl y Cymry. Rwy'n credu bod Gwynfor ei hun yn falch bod y Gymdeithas yn bod er nad oedd e'n meddwl y gallai, ac yntau'n wleidydd cyfrifol, gydnabod hynny ar y pryd.

Roedd yn ddiddorol hefyd sylwi ar y gwahaniaeth rhwng agwedd hoelion wyth y Blaid tuag at fechgyn Gwent, a gyflawnodd y weithred uniongyrchol gyntaf yn erbyn argae Tryweryn, a'u hagwedd tuag at Emyr Llew a wnaeth rywbeth tebyg rywbryd ar ôl hynny. Beirniadwyd Dave Pritchard a Dave Walters yn llym am weithred na ellid ei chyfiawnhau, ond roedd y Blaid yn ymfalchïo yn weithred Emyr oedd yn perthyn i rai o aelodau'r Pwyllgor Gwaith!

Beth bynnag, dywedais wrth Gwynfor os oeddem am fod yn blaid wleidyddol draddodiadol, byddai'n rhaid inni weddnewid ein dull o weithredu os am fod yn effeithiol. Ychydig iawn o ymateb gefais ganddo. Euthum ati fodd bynnag i ystyried sut y gellid gwneud y Blaid yn fwy effeithiol. Nid wyf yn cofio'r holl fanylion erbyn hyn ond y tri phrif beth oedd yr aelodaeth, y canghennau a strwythur y Blaid. Arfer y Blaid y pryd hynny oedd ystyried unrhyw un yn aelod oedd erioed wedi ymaelodi am un flwyddyn yn unig neu erioed wedi cyfrannu hyd yn oed swm mor fychan â phum swllt. (Roedd Richard Burton o blith y rhai diwethaf yma yn ôl ein cofnodion ni!). Roeddem yn cyhoeddi ffigurau cwbl ddychmygol a theimlais y byddai'n well bod yn onest â ni'n hunain heb sôn am bobl eraill a'i fod yn wastraff adnoddau mynd ar ôl pobl nad oeddent wedi bod mewn cysylltiad â'r Blaid ers blynyddoedd maith.

Roedd ein rhwydwaith o ganghennau'n ffantasi hefyd. Arfer y Blaid oedd ffurfio canghennau lleol a'u cael i benodi swyddogion ond wedyn, os oedd angen trefnu rhywbeth lleol neu os oedd angen datganiad ar ddigwyddiad lleol, anwybyddu'r gangen ac yn hytrach ymgynghori â chyfeillion personol oedd yn byw yn yr ardal. Roedd hynny, wrth gwrs, yn tanseilio'r canghennau a'r aelodau lleol ac o'r herwydd ychydig iawn o ganghennau effeithiol oedd gennym ar y pryd.

Ac o ran cyfrifoldeb cyffredinol am beirianwaith y Blaid, teimlwn fod angen rhywun a fyddai'n cadeirio'r Pwyllgor Gwaith a'r Gynhadledd yn effeithiol ac a allai fod yn eithaf llym ar staff neu swyddogion lleol os nad oeddent yn gwneud eu gwaith yn effeithiol – rhywun na fyddai'n pryderu os oedd yn amhoblogaidd. Teimlais nad priod waith y Llywydd oedd hynny. Ei waith ef yn fy nhyb i oedd bod yn ffigur cyhoeddus allai ysbrydoli pobl i ymuno â'r mudiad cenedlaethol ac i ysbrydoli'r aelodau.

Roeddwn hefyd, er yn aelod o'r Ymgyrch Gwrth Niwclear yn bersonol, ddim yn gyfforddus â phenderfyniad Gwynfor i ofyn i mi – yn rhan o'm dyletswyddau yn aelod o staff y Blaid – fynd ati yn amser y Blaid i sefydlu cyfundrefn genedlaethol yng Nghymru i'r Ymgyrch. Serch

hynny, es ati i sefydlu CND Cymru gyda minnau'n Ysgrifennydd cyntaf iddo a John Dennithorne annwyl – Crynwr o Ferthyr Tudful – yn Gadeirydd. Buom yn cyfarfod yn rheolaidd yn Nhŷ Cwrdd y Crynwyr yn Heol Siarl Caerdydd, a threfnu nifer o gyfarfodydd a raliau ac arddangosfeydd llwyddiannus iawn.

Roeddwn i'n mynd y pryd hynny i gynrychioli CND Cymru mewn cyfarfodydd yn nhŷ'r Canon John Collins yn Llundain. Siaredais hefyd mewn cyfarfod yn y Deml Heddwch a gynhaliwyd i ffurfio Ymgyrch Cymru yn Erbyn Ynni Niwclear – WANA (roedd yr actores enwog Julie Christie yn y gynulleidfa) – ac wedyn mewn cyfarfod yn Llundain gydag Arthur Scargill yn Gadeirydd i sefydlu Anti-Nuclear Alliance Prydeinig.

Ym 1960 fe'm dewiswyd yn ymgeisydd y Blaid yn isetholiad Glyn Ebwy (neu Pen y Cae fel y byddai Modryb yn ei alw fe) ar farwolaeth Aneurin Bevan. Ymgyrch fywiog hen ffasiwn oedd honno. Mae pawb fu yno'n cofio'r ddadl gyhoeddus rhyngof i a Michael Foot a gafwyd yn y "Bullring", Sirhywi. Michael oedd i siarad yn gyntaf ond roedd cefnogwyr y Blaid yn gwneud cymaint o stŵr bu raid imi ofyn am ddistawrwydd iddo cyn iddo gario ymlaen. Wedi i ni'n dau siarad, dyma'r cadeirydd yn dweud wrth arweinydd y cythrwfl – Ivor Davies, fu wedyn yn gynghorydd y Blaid ym Merthyr – beth oedd ganddo i'w ddweud. Dyma Ivor yn edrych arno'n syn ac yntau'n ei wahodd eto i ddweud ei ddweud. Eisiau gwybod a fydden ni'n cael cyfle i ofyn cwestiynau, meddai Ivor, dyna'r cyfan. Wrth gwrs, meddai'r cadeirydd, dyma'ch cyfle: beth yw eich cwestiwn? Wedi crafu ei ben am eiliad, dyma Ivor yn ateb: Wel, dos gen i ddim cwestiwn fy hunan. Ac yn syth, roedd yr holl le yn bedlam go iawn – pawb yn bloeddio, Harri Webb yn neidio ar gefn rhywun arall a dweud y drefn wrth y byd a'r betws a rhywun yn dechrau taflu cadeiriau o gwmpas. Roedd rhaid terfynu'r cyfarfod yn y fan a'r lle, ond dyna oedd cyfarfod gwleidyddol poeth hen ffasiwn!

Nodwedd arall o'r isetholiad hwnnw oedd recordio rhaglen i Radio Cymru yn gyhoeddus yn Neuadd y Gweithwyr yng Nglyn Ebwy yn syth ar ôl un o gyfarfodydd yr ymgyrch. Ar y pryd, ni chai'r Blaid unrhyw

ddarlediadau gwleidyddol gan fod rhaid ymladd 50 sedd cyn cael yr hawl honno ar y pryd, ac roedd llai na phedwar deg o etholaethau yng Nghymru! Roeddem felly wedi bod yn darlledu rhaglenni anghyfreithlon ar ein trosglwyddyddion ein hunain ers rhai misoedd, gan ddefnyddio tonfedd deledu'r BBC wrth i'w rhaglenni nhw gau i lawr am y noson (ychydig wedi 11 o'r gloch y nos y dyddiau hynny).

Roedd sawl set trosglwyddo ar gael ar draws Cymru – cafwyd hyd i drosglwyddydd radio yn agos i Aberystwyth ym 2010 a rhai yn awgrymu mae'n rhaid bod rhywun o'r ardal wedi bod yn siarad yn ddirgel a Moscow: mae'n llawer mwy tebyg mai un o setiau'r hen Radio Cymru anghyfreithlon oedd e. Roeddwn i'n ymhél â set y deddwyrain – yr un mwyaf gweithgar o bell ffordd. Fel arfer roeddwn innau'n paratoi ac yn recordio'r rhaglenni a Glyn James a minnau'n mynd o fan i fan i'w darlledu – i gyd yn ddirgel, wrth gwrs.

Un noson, gwnaethom ddarlledu o fflat uchel yng Ngabalfa yng Nghaerdydd. Roedd heddwas yn byw yn y fflat oddi tanodd, ac yntau'n brolio'r bore wedyn eu bod nhw bron a dal y rhai fu'n gyfrifol am y darllediad! Beth bynnag, adeg isetholiad Glyn Ebwy, penderfynsom herio'r heddlu trwy gyhoeddi'n bwriad i recordio rhaglen yn gyhoeddus. Roedd fy ngwraig Margaret yno (er yn dal yn ddisgybl ysgol ar y pryd!) a Glyn James a Noel Williams a John Bevan. Cyn dechrau recordio, es i edrych yn yr ystafelloedd o'r tu ôl i'r llwyfan – a darganfod ystafell lawn o heddwasion. O wel, carchar amdani, meddyliais, ond doedden nhw dim yno i amharu arnom ni – rwy'n credi eu bod nhw'n mynychu sesiwn hyfforddi – ac aeth y recordiad ymlaen, a'r darllediad yn ddiweddarach y noson honno, yn ddiffwdan.

At ei gilydd, cafwyd ymgyrch gwych yn yr isetholiad ac er na ches lawer o bleidleisiau, roedd pobl yr ardal yn gefnogol iawn ac yn Gymry i'r carn. Rhai blynyddoedd wedyn ces gynnig swydd Swyddog Cyhoeddusrwydd i'r Cyngor Lleol. Ond roedd arwisgo Carlo ar y gorwel a dywedais innau pe cymerwn y swydd na allwn ymhél mewn unrhyw fodd a threfnu dathliadau ar gyfer yr achlysur hwnnw. Chefais mo'r swydd, ond rwy'n deall i Ron Evans, gŵr cryf y Blaid Lafur yn yr

ardal a threfnydd ymgyrch Michael Foot ym 1960, bleidleisio drosof ar waethaf fy safiad. Pan na chefais y swydd, y fe a dynnodd fy sylw at swydd oedd ar gael yn y Bwrdd Ysbytai a dyna oedd dechrau fy mherthynas â'r Gwasanaeth Iechyd.

Cefais siarad ar yr un llwyfan a Michael Foot sawl gwaith ar ôl isetholiad 1960, weithiau o blaid CND, ac yn ddiweddarach o blaid ymateb ffafriol yn refferendwm 1979. Roedd gan Michael gryn gydymdeimlad a'n safbwynt ni.



Emrys Roberts yn paratoi un o ddarllediadau Radio Cymru anghyfreithlon

Ysgrifennydd y Blaid – y 1960au cynnar

Roedd JE Jones, Ysgrifennydd y Blaid, wedi ymddeol ym 1960 hefyd a minnau wedi fy mhenodi yn Ysgrifennydd Cyffredinol yn ei le. Ceisiais drafod fy syniadau am wella trefniadaeth y Blaid â Gwynfor – ond unwaith eto heb fawr ymateb y naill ffordd neu'r llall. Pan geisiais godi trafodaeth ar y materion hyn yn y Pwyllgor Gwaith roedd amryw yn cwyno fy mod i'n dwrdio ymlaen yr holl amser am drefniadaeth a bod ganddyn nhw bethau mwy pwysig i'w trafod. Yn rhyfedd ddigon, doedd neb yn cwyno i Drysorydd y Blaid, Elwyn Roberts, ddwrddio ymlaen am arian a chyllid y Blaid, fel y gwnâi yn helaeth bob cyfarfod.

Mae'n debyg mai oherwydd y sefyllfa yma y dywedais wrth y Pwyllgor Gwaith unwaith eu bod nhw fel trip ysgol sul a'u bod nhw'n trin Gwynfor fel rhyw fath o Grist – rhywun i wrando arno a'i ganmol a rhoi ychydig arian yn y casgliad bob wythnos ac wedyn ddisgwyl iddo yntau ein hachub ar ei ben ei hun heb wneud fawr ddim i'w gynorthwyo! Fel y dylsw'n fod wedi disgwyl, ni chafodd y sylwadau hynny groeso mawr! Ond rwy'n dal i gredu iddynt fod yn o agos i'r nod.

Gan nad oedd fawr neb arall yn ymddiddori, es ati i drafod sut i wneud y Blaid yn fwy effeithiol gyda grŵp bychan o aelodau oedd â diddordeb yn y pwnc. Buom yn cyfarfod o bryd i'w gilydd yn y Garthnewydd ym Merthyr Tudful. Wedi dod i ryw fras gytundeb ar y ffordd ymlaen aethom i weld Gwynfor yn ei gartref yn Nhalar Wen i esbonio'n syniadau iddo. Gwrandawodd arnom yn ddigon astud – ond unwaith eto, ni chafwyd unrhyw ymateb pendant ganddo.

Aethom ati ein hunain i lunio polisïau gwleidyddol i'w trafod yn y Gynhadledd Flynyddol ac i gyhoeddi llyfrynau megis "Sut i ennill etholiad". Roedd amryw yn chwerthin am ein haerllugrwydd y pryd hynny, ond dyma'r union ddulliau a ddefnyddiwyd flynyddoedd wedyn i ennill rheolaeth ar Gyngor Merthyr Tudful.

Y pryd hynny y dechreuodd y Blaid ennyn diddordeb mwy o bobl cymoedd y de a'r ardaloedd diwydiannol eraill. Tan hynny, roedd y

Blaid wedi apelio'n bennaf at y Cymry Cymraeg, ond yn awr dechreuodd y Cymry di-Gymraeg ddeall fod gan y Blaid neges bwysig iddyn nhw hefyd – e.e. roedd grŵp o bobl ifainc di-Gymraeg yn egniol iawn yng Nghaerdydd.

Ni wyddwn ar y pryd, ond mae'n ymddangos i Gwynfor feddwl fod yr holl weithgarwch hyn yn gynllwyn i'w ddisodli o Lywyddiaeth y Blaid ac i finnau gymryd ei le. Nid wyf yn deall sut y cafodd syniad felly. Ond wedyn, un go wael oedd Gwynfor wrth farnu personoliaeth. Roedd pawb yn gwybod ei fod yn meithrin Elystan Morgan yn olynedd iddo. Unwaith, dywedodd Elystan wrth Margaret, cyn iddi fod yn wraig i mi wrth gwrs, mai fy niffyg i oedd fy mod yn fwy o sosialydd nag o genedlaetholwr. Yn fuan wedyn ymunodd yntau â'r Blaid Lafur. Dwn i ddim beth mae hynny'n ei ddweud amdano fe nag am y Blaid Lafur!

Un arall a gafodd ei drin yn wael gan y Blaid oedd yr annwyl Pedr Lewis, fu'n aelod gynt o'r gweriniaethwyr. Bu Ray Smith, actor go adnabyddus o'r Rhondda, ar staff y Blaid am gyfnod a llwyddodd sefydlu nifer o ganghennau gweithgar newydd yn y De-Ddwyrain. Pan aeth yn ôl i actio dyma Gwynfor yn mynnu penodi Pedr yn ei le. Roeddwn yn hoff iawn o Pedr, ac roedd yntau a minnau yn aml iawn ar yr un donfedd wleidyddol, ond doeddwn i ddim yn meddwl y byddai'n effeithiol yn y swydd honno. Ceisiais berswadio Gwynfor i beidio â'i benodi, ond ni thyciodd hynny ddim ac fe'i penodwyd i'r swydd. Yn weddol fuan wedi i mi gael fy niswyddo o ysgrifenyddiaeth y Blaid dyma Gwynfor yn sylweddoli mai fi oedd yn iawn ac fe fynnodd gael gwared â Pedr hefyd – a hynny mewn ffordd eithaf ciaidd gan geisio difrio ei gyflwr meddyliol a heb roi cyfle i Pedr ddadlau ei achos.

Y camgymeriad mwyaf dybryd wnaeth Gwynfor wrth asesu personoliaeth, efallai, oedd pan wnaeth gytundeb â Brian Kelly ddiwedd y chwe degau iddo yntau ffurfio cwmni i gyhoeddi'r Welsh Nation. Roeddent wedi cwrdd ar y trê'n o Lundain, ac ni wyddai Gwynfor fawr ddim amdano, ond dyma fe'n perswadio nifer sylweddol o aelodau'r Blaid i fuddsoddi yng nghwmni Kelly. Roeddwn i a Chris Rees yn cynghori'n daer yn erbyn hynny gan fod gennym ein

hamheuron ynglŷn â gwir fwriad Kelly. Ond roedd Gwynfor yn mynnu mynd yn ei flaen.

Penderfynais innau mai'r ffordd orau i geisio diogelu'r arian a fuddsodwyd oedd mynd i weithio dros Kelly gan obeithio felly gadw llygad barcud arno ac fe'm penodwyd yn Rheolwr Cylchrediad i'r Welsh Nation. Ond ar ôl mis neu ddau, dyma Kelly'n trosglwyddo arian o gwmni'r Welsh Nation i rai o'i gwmnïoedd eraill. Yn ôl y cytundeb a wnaed gyda Gwynfor, doedd dim modd atal hyn ac fe gollodd amryw o bleidwyr symiau sylweddol yn y fenter. Ond ni chollodd Gwynfor ddim am y bu'n ddigon call o leiaf i beidio â rhoi dim o'i arian ei hun yn y cwmni.

Clywais yn gymharol ddiweddar bod straeon o gwmpas rywbyrd yr adeg yma fy mod innau wedi twyllo'r Blaid yn ariannol. Ni allaf ond gwenu wrth glywed hyn wrth gofio am yr arian mawr a gollais dros y blynyddoedd trwy fy ngwaith dros y Blaid a thrwy ymhél ag achosion gwirfoddol mewn cyfnod mwy diweddar. Hwyrach mai'r fenter aflwyddiannus yma gyda Kelly oedd gwraidd unrhyw straeon felly. Er i mi weithio drosto am ryw ddau fis yr adeg honno, fy nod oedd ceisio (yn aflwyddiannus, rhaid cyfaddef) ddiogelu buddiannau aelodau'r Blaid – a chefais erioed ddim dimai o dâl ganddo chwaith!

Fy Niswyddo, 1964

I droi'n ôl at ein hymgais i weddnewid y Blaid, roeddwn yn was cyflogedig y Blaid ar y pryd ac yn disgwyl aros felly ar hyd fy oes. Ni allwn felly sefyll am swyddi etholedig yn y Blaid. Beth bynnag, pe bai Gwynfor wedi f'adnabod, byddai'n gwybod nad oeddwn yn coleddu unrhyw uchelgais bersonol. Un a weithiodd yn galed hyd ei oes, yn bennaf o'r tu ôl i'r llenni fel pe tai, oedd fy nhad – hyd yn oed yn ei nawdegau – ac rwyf innau'n ddigon tebyg (heb fod mor weithgar ag ef); un a hoffai fynd ati i wneud y pethau bychain di-glod fues i erioed, yn ogystal ag areithio o bryd i'w gilydd.

Ond penderfynodd Gwynfor, rywbrud yn y chwedegau cynnar mae'n debyg a heb wybod i fi ar y pryd, fod rhaid cael gwared arnaf. Dim ond yn ddiweddar (2010) y deuthum i wybod iddo geisio cael gwared arnaf ym 1962 pan ffurfiwyd Teledu Cymru, a Gwynfor yn aelod o'r bwrdd. Ceisiodd berswadio swyddog uchel yn y cwmni newydd roi swydd imi – heb ymgynghori a fi o gwbl! Ni ddaeth dim o hynny gan fod yr holl swyddi oedd ar gael wedi eu llenwi erbyn hynny.

Daeth cyfle euraidd arall i gael gwared arnaf ym 1964. Roeddwn wedi ymrannu oddi wrth fy ngwraig y flwyddyn honno a Margaret, fy ngwraig bresennol, wedi ymrannu oddi wrth ei chymar hithau. Roedd hithau ar y pryd yn Ysgrifennydd Adran Ieuencid y Blaid a chafodd yr holl straeon personol hyn eu gwyntyllu yn y papurau. Yn y Pwyllgor Gwaith nesaf dyma Gwynfor yn dweud bod y cyhoeddusrwydd yn dwyn anfri ar y Blaid ac fe'm gwahoddwyd i ymddiswyddo. Nid oeddwn innau'n gweld bod materion personol felly yn achos ymddiswyddo, felly rhoddwyd cynnig o flaen y Pwyllgor y dylid fy niswyddo.

Cefais gyfle i siarad ond doedd gennyf fawr ddim i'w ddweud. Teimlwn fod rhaid i bob aelod o'r Pwyllgor farnu drosto ei hun ac yn ôl ei gydwybod ei hun ar fater felly. Siaradai rhai yn huawdl drosaf – Dr Dafydd Alun Jones (Dafydd Als fel yr oeddem yn ei adnabod ar y pryd) sy'n dod i'r cof. Ond er hynny, pan gymerwyd y bleidlais ychydig cyn cinio, fe aeth yn fy erbyn. Wedi cinio daeth Dafydd ataf a dweud “Y

cnaf. Wyddwn i ddim pan siaredais o’th blaid dy fod ti’n cynllwynio i gael gwared ar Gwynfor”.

Roedd Gwynfor wedi danfon cylchlythyr preifat at ei gyfeillion ar y Pwyllgor Gwaith heb wybod i fi, lle’r oedd e’n fy nghyhuddo o gynllwynio i’w ddisodli a chymryd ei le. Roedd amryw o’r Pwyllgor wedi pleidleisio yn fy erbyn oherwydd y llythyr hwnnw. Pe bawn i’n gwybod am y llythyr, buaswn wrth gwrs wedi esbonio fy safbwynt innau ac egluro bod Gwynfor wedi camddehongli’r sefyllfa. Ceisiais ail agor y drafodaeth yn y prynhawn ond yn aflwyddiannus.

Y pryd hynny y deallais y gallai Gwynfor weithredu’n effeithiol iawn – ond yn anffodus er mwyn diogelu ei sefyllfa bersonol ef yn hytrach nag er lles y mudiad. Cafwyd goleuni craff ar agwedd Gwynfor yn ystod y cyfnod hwn gan ei fab Dafydd mewn ymglyw deledu wedi cyhoeddi cofiant Gwynfor gan Rhys Ifans. Dywedodd Dafydd i’w dad ofni y byddai rhywun arall yn ennill hunanlywodraeth i Gymru o’i flaen e ac i’w dad ddweud wrtho iddo gytuno â’r rhan fwyaf o’r syniadau fi i foderneiddio’r Blaid ond iddo ofni y byddwn innau’n ei ddisodli ef yn arweinydd y Blaid – h.y. roedd yn rhoi lles personol o flaen lles y genedl.

Roedd hyn yn f’atgoffa o’r hyn ddywedodd Gwynfor wrthyf flynyddoedd cynt pan aeth Wynne Samuel yn Glerc i gyngor lleol yn Sir Benfro. Wel mae’n gwneud beth ffôl, meddai. Bydd e fyth yn ffigur o bwys cenedlaethol mewn swydd felly. Roedd bod yn ffigur o bwys cenedlaethol yn bwysig iawn i Gwynfor, mae’n amlwg. Ychydig flynyddoedd ar ôl iddo gael gwared arnaf i, dyma’r Blaid yn derbyn ac yn gweithredu’r rhan fwyaf o’r hawgrymiadau – efallai am nad oedd Gwynfor mwyach yn gweld bygythiad i’w safle ei hun. A’r pryd hynny y dechreuodd y Blaid brofi llwyddiant etholiadol!

Ar ôl cael fy niswyddo, penderfynodd grŵp bychan ohonom – John Legonna, Harri Webb, Ray Smith a minnau – gyhoeddi cylchgrawn bychan dan y teitl “New Nation” i barhau’r drafodaeth ar y ffordd ymlaen i genedlaetholwyr y pryd hynny. Mynnai John fod symbolau’n

bwysig ac er nad oeddwn yn gyfangwbl ar yr un donfedd ag ef, aethom ati i drefnu'r cyfarfod cyntaf i goffau Llywelyn ein Llyw Olaf yng Nghilmeri – sydd erbyn heddiw wrth gwrs yn achlysur blynyddol ac yn denu nifer sylweddol o bobl. Roedd John wedi paratoi datganiad rhwysgfawr i'w ddarllen o flaen cofeb Llywelyn. Ar y diwrnod hwnnw ym 1964, roedd y tywydd yn ddychrynllud a theithio mewn ardaloedd gwledig yn anodd yn sgil clwyf y traed a'r genau a dim ond fi gyrhaeddodd Cilmeri, ac yno – mewn niwl mor drwchus y cefais anhawster i weld y geiriau – bu raid i mi ddarllen geiriau John, yn eironig ddigon wrth gofio fy agwedd tuag at dywysogion Gwynedd!



Harri Webb ac Emrys Roberts

Gwaith – mewn 20 neu fwy o swyddi

Roeddwn wedi rhagweld y byddwn yn gweithio dros y Blaid weddill fy oes ond roedd rhaid yn awr chwilio am waith arall. Ymddangosai nad oedd neb yng Nghymru'n barod i'm cyflogi ar y pryd er i mi geisio dwn im faint o swyddi. Roedd fy nhad yn dipyn o grwydryn lle oedd gwaith yn y cwestiwn ac o'r herwydd, efallai, fuodd erioed yn agos at fod yn gyfoethog. Dyw carreg sy'n rholio ddim yn casglu mwsogl, medd y Sais (cyn dyddiau'r Rolling Stones wrth gwrs!). Un felly oedd fy nhad, ac un felly oeddwn innau hefyd.

Roeddwn yn barod i droi fy llaw at unrhyw beth, doeddwn i ddim yn malio dim am yrfa nac uchelgais. Rhwng popeth, cefais ryw 20 neu fwy o swyddi gwahanol dros y blynyddoedd a hwyrach y dylwn eu rhestru: Clerc yn swyddfeydd y Dreth Incwm, Swyddog Gweithredol yn y Bwrdd Cymorth Cenedlaethol, Dosbarthwr Llythyrau, Delifro parseli, gweithio dros y Llythyrdy ar Orsaf Trenau Caerdydd, Mêt i Ffiter mewn gwaith dur (yn anffodus, byddai galw fy hun yn Gyfarwyddwr i Ffiter yn cyfleu rhywbeth gwahanol!), Glanhawr Lloriau i Marks & Spencer, Is-Ysgrifennydd plaid wleidyddol, Ysgrifennydd Cyffredinol plaid wleidyddol, Trefnydd Eisteddfod Ryngwladol, Darlithydd yn Adran Allanol Coleg Caerdydd, Sefydlu fy Musnes Cyfathrebu fy hun (aflwyddiannus, roeddwn yn rhy onest!), Gweinyddwr i Undeb Llafur, Gyrrwr Tacsî, Rheolwr Cylchrediad i gylchgrawn misol, Golygydd papur lleol wythnosol, Darlennydd Newyddion i'r BBC yn Gymraeg a Saesneg, Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus i Fwrdd Ysbytai Cymru, Cyfarwyddwr Gweithredol cwmni cyfathrebu rhyngwladol (roedd y ddau gyfarwyddwr arall yn Sgotiaid a phencadlys y cwmni yng Nghaeredin. Daeth un ohonynt, Douglas Crawford, yn AS dros yr SNP wedyn), Argraffydd (er i mi weithio'n ddi-dâl 12 awr y dydd am 9 mis mewn argraffdy yn y Rhondda: roeddwn am brynu'r busnes a'i droi'n fenter gydweithredol ond methais a chodi'r arian angenrheidiol), Ysgrifennydd Cyngor Iechyd Cymdeithas De Gwent, Rheolwr Iechyd Torfaen gydag Awdurdod Iechyd Gwent ac yn olaf, yn rhan amser wedi ymdeol, Aelod o Gyngor Tribiwnlysoedd Prydain.

Ar ben hynny, cefais fy mhenodi i staff y Cwmni Opera Cenedlaethol ond tynnwyd y cynnig yn ôl (wedi i mi roi'r gorau i'r swydd oedd gennyf ar y pryd) gan i wasgfa credyd Selwyn Lloyd ddechrau tynhau ar y pryd a doedd ganddynt mo'r arian i dalu'm cyflog. Cefais gynnig swydd athro ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ond ni dderbyniais y swydd honno am nad oeddwn yn gweld fy hunan yn athro. Cefais hefyd gynnig swydd ar staff Cyngor Glyn Ebwy, ond ar yr amod y byddwn yn trefnu dathliadau yn sgil arwisgo Carlo. Ni allwn dderbyn swydd ar yr amod yna.

Gobeithio nad wyf wedi anghofio dim! O leiaf, oherwydd yr ystod eang yma o brofiad, teimlaf fy mod i'n deall agwedd a dyheadau'r werin bobl o bob math yn well o lawer na phobl sydd wedi cael bywyd proffesiynol breintiedig cul neu'r rheini sydd wedi gwneud fawr ddim ond mynd o goleg i weithio gyda gwleidydd blaenllaw cyn mynd yn aelodau seneddol eu hunain.

Beth bynnag am hynny, wedi cael fy niswyddo gan y Blaid bu raid i mi fynd i Loegr i weithio am ddwy flynedd - yn sefydlu Eisteddfod Ryngwladol yn Teesside! Roedd ICI am ddod â thipyn o ddiwylliant i lannau Tees ar y pryd er mwyn denu gweithwyr proffesiynol yno. Roedd yr Eisteddfod gyntaf ym 1966 yn llwyddiant mawr, gyda thros 3,000 o gystadleuwyr tramor. Roedd Elizabeth Schwarzkopf – un o artistiaid y cyngherddau hwyrol – mor hapus â'r trefniadau nes iddi ddychwelyd cyfran sylweddol o'i ffi. Un arall o'r artistiaid proffesiynol oedd y gantores werin enwog Julie Felix oedd yn mynnu yfed 8 Guinness cyn mentro i'r llwyfan! Mae'r eisteddfod yn dal i fynd bob yn ail flwyddyn, ond yn llawer llai a than enw newydd erbyn hyn.

Daeth Margaret a minnau a'r plant yn ôl i Gymru ym 1966 wedi'r Eisteddfod gyntaf honno. Roeddwn wedi cael fy mhenodi i staff y Cwmni Opera. Rwy'n hoff iawn o opera ac wedi bod yn bresennol ym mherfformiad cyntaf y cwmni ym 1948, felly roedd diflaniad y swydd honno'n siom fawr i fi. Ond er nad oedd gennyf ddim swydd ar y pryd, teimlem fod rhaid i ni ddychwelyd i Gymru am fod y bechgyn ar fin dechrau ysgol ac roeddem am iddynt fynd i ysgol Gymraeg.

Aethom ati i ail-afael yn ein gwaith dros y Blaid. Roeddem yn weithgar ym Mhenarth, lle buom ni'n byw am gyfnod a lle bu Margaret yn drefnydd etholiad i Maxwell Evans mewn etholiad lleol, ac wedi hynny yng nghanen Cathays, Caerdydd. Siaredais ar lwyfannau isetholiad y Rhondda ym 1967 – gan rannu'r llwyfan a Gwynfor sawl tro – pan fe fu bron i Vic Davies gipio'r sedd. Margaret, oedd wedi bod yn ymgeisydd ei hunan yn Ogwr yn etholiad cyffredinol 1964, oedd yn gyfrifol am swyddfa Ystrad Mynach yn isetholiad Caerffili ym 1968. Roeddwn innau erbyn hynny'n olygydd y papur lleol, a rhoddod y papur gefnogaeth frwd i Phil Williams. Gweithiais yn ddygn iawn am rai misoedd wrth sefydlu Cangen y Bargod yng Nghwm Rhymini.

Ac wedyn, dyma aelodau'r Blaid o Ferthyr Tudful yn cysylltu â fi. Roedd y Blaid Lafur ym Merthyr wedi dewis ymgeisydd newydd yn lle S O Davies, oedd wedi cynrychioli'r dref ers blynnyddoedd. Roedd yntau wedi sefyll yn Annibynnwr, gan ddal y sedd yn erbyn Tal Lloyd, Ymgeisydd y Blaid Lafur. Roedd S O mae'n debyg – ac yntau wedi cyflwyno mesur ar ymreolaeth i Gymru o flaen y senedd – â chryn gydymdeimlad â'r Blaid – wedi rhoi ar ddeall i rai o aelodau'r Blaid os oeddent hwy'n dewis ymgeisydd fyddai'n dderbyniol iddo ef byddai'n gofyn i'w gefnogwyr bleidleisio drosom ni yn yr etholiad nesaf. Gan ystyried y buaswn innau'n dderbyniol iddo gofynsant i fi roi fy enw ymlaen. Cytunais, ac yn wir aeth Margaret a fi mor bell â chwilio am dŷ i'w brynu ym Merthyr yn barod at y frwydr.

Ryw noson, daeth Harri Webb, oedd yn aelod o Bwyllgor Gwaith y Blaid erbyn hynny, i'r fflat lle roeddem yn byw ym Mhenarth a rhoi ar wybod o dipyn i beth dros baned i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu y byddent yn barod i mi sefyll eto dros y Blaid mewn sedd nad oed gobaith ei hennill, ond nid mewn sedd y gellid ei hennill, megis Merthyr. Felly, dyna ben ar y syniad o symud i Ferthyr. Ond bu farw'r hen S.O. yn fuan wedyn a'r Blaid Lafur yn galw isetholiad o fewn ychydig wythnosau heb neb wedi ei ddewis yn ymgeisydd dros y Blaid.



Taflen ymgyrch Is-etholiad 1972

Isetholiad Merthyr Tudful 1972

Roedd yr Isetholiad ym Merthyr ar ôl marwolaeth SO Davies ym 1972 yn un cofiadwy iawn – diolch yn bennaf i “fflêr” marchnata Glyn Owen o Aberdâr. Heidiodd aelodau’r Blaid yno bob rhan o Gymru, a thu hwnt, i ganfasio bron pob tŷ. Gweithiodd cannoedd ohonynt yn ddygn iawn, ond cafwyd hwyl fawr yr un pryd.

Roedd ceir a’u baneri’n cyhwfan yn mynd lan a lawr pob stryd a chan Heather Jones “E am Emrys, M am Ferthyr, R am Roberts, fe yw’r dyn” i’w chlywed ar yr uchel-seinydd ymhob man. Roedd bron pawb yn gwisgo crysau-T lliwgar “I’m for Em” – ac yn wir roedd nifer fawr yn dal i’w gwisgo nhw ar eu gwyliau am flynyddoedd wedyn!

Roeddwn innau’n codi am 5 o’r gloch bob bore i deithio ar y bysiau a’r trenau a sgwrsio a’r bobl oedd yn mynd i’w gwaith. Yn ystod y dydd roeddwn yn crwydro strydoedd y dref yng nghwmni’r annwyl Meredith Edwards – pawb yn ei nabad, wrth gwrs, ac am gael gair gydag e. Roedd yntau’n sgwrsio’n hwylus â phawb a’u hannog i bleidleisio drosof.

Gyda’r hwyr, byddwn yn mynd o gwmpas y tafarndai a’r clybiau yng nghwmni fy asiant, Penri Williams. Dwyf fi ddim yn credu i ni fynd i unman unwaith lle nad oedd rhywun yn adnabod Penri, felly eto dyma gyfle inni ddechrau trafodaeth fywiog. Dwn i ddim faint o gwrw y bu raid imi yfed y nosweithiau hynny, ond rywsut, a chymaint o waith i’w wneud, doedd e ddim yn amharu arnaf. Ni allwn wneud y fath beth heddi!

Cawsom nifer sylweddol o gyfarfodydd cofiadwy hefyd – o’r Cyfarfod Mabwysiadu yn Neuadd y Glowyr i’r cyfarfod noswyl yr etholiad ei hun yn Neuadd Bingo Ivor Davies. Roedd Gwynfor ac un o feibion enwog Merthyr – yr actor Philip Madog – yn siarad o’r plaid a Dave Burns yn ychwanegu ei ddawn gerddorol. Un arall a siaradodd mewn amryw o’r cyfarfodydd oedd Winnie Ewing o’r SNP.

Roeddem yn mwynhau etholiadau'r dyddiau hynny, ac o fewn 3 wythnos o ymgyrchu daethom o fewn ryw 2,000 o bleidleisiau o gipio'r sedd. Trowyd ataf i ar y funud olaf (pam y newid meddwl nid wyf yn gwybod – diffyg ymgeisydd arall mae'n debyg). Tybed beth fuasai'r canlyniad pe bai Gwynfor heb ymyrryd i rwystro fy ymgeisyddiaeth ar ôl yr etholiad cyffredinol a minnau wedi cael dros flwyddyn i weithio ym Merthyr a chael sêl bendith S.O. ei hun? Hwyrach y byddem wedi cipio'r sedd a thrawsnewid rhagolygon y Blaid yng nghymoedd y de.



Merthyr Tudful – cipio'r awenau, 1976

Symudodd Margaret a fi a'r teulu i Droedyrhiw, Merthyr ym 1973 a dechrau'r ymgyrch i gipio'r Cyngor oddi ar y Blaid Lafur. Aethom ati'n syth i ddefnyddio'r dulliau a argymhellwyd yn y ddogfen "Sut i Ennill Etholiad" – sef gwaith cyson a pharhaus yn gwrando a gweithredu ar syniadau a chwynion y bobl leol yn ogystal ag esbonio'n syniadau a'n polisiau ni iddyn nhw. Roeddem yn ffodus iawn wrth gwrs fod Dafydd Wigley a'i wraig Elinor yn byw ym Merthyr ar y pryd a gwnaethant waith mawr yn helpu sefydlu Ysgol Gymraeg Santes Tudful cyn i ni lwyddo symud i Ferthyr wedi'r etholiad. Bu criw ohonom, a Dafydd yn amlwg yn eu plith, yn cyfarfod yn ein tŷ ni i lunio polisiau a basiwyd yn ddiweddarach gan y gynhadledd flynyddol i ffrwyno cyfalafiaeth a hybu dulliau cydweithredol o weithio, yn ogystal â pholisi tai gwâr a nifer o bolisiau eraill.

Bu nifer o Bleidwyr ar y cyngor ym Merthyr cyn hynny – gan gynnwys Gwyn Griffiths a Bill Williams ym 1958. Roedd Dafydd wedi ennill sedd, ond ni adawodd yr aelodau Llafur iddo wasanaethu ar y Pwyllgor Datblygu economaidd er bod ganddo fwy o gymwysterau yn y maes hwnnw na'r holl aelodau Llafur gyda'i gilydd! Wedi'r isetholiad cipiwyd seddi ar y Cyngor gan Gareth a Linda Foster a David Williams.

Cipiais innau sedd mewn isetholiad ym 1974. Un o'r pethau cyntaf y sylwais arno wrth gynorthwyo etholwyr i gael y gwasanaethau angenrheidiol ac i sicrhau ymchwiliad trylwyr i unrhyw gwynion, oedd bod llawer iawn ohonynt yn gofyn faint oedd arnyn nhw am fy nghymorth! Mae'n amlwg roeddent yn disgwyl talu am gymorth o'r math. Tybed pam?

Ar y pryd, cynghorwyr y ward oedd yn penderfynu pwy gâi denantiaeth tai cyngor. Credwn fod angen trefn llawer mwy gwrthrychol ac aethom ati i ddyfeisio system o bwyntiau yn seiliedig ar anghenion y teulu yn ogystal â'r cyfnod y buont yn aros am dŷ. Trafodwyd ein syniadau mewn cyfarfodydd i bawb ar restr aros ein ward ni, ac fe newidiwyd rywffaint ar y cynllun yn sgil y trafodaethau hynny. A dyna'r system a

ddefnyddiwyd yn y ward ar ôl hynny – a dyna oedd sail y drefn newydd a fabwysiadwyd gan y cyngor ar ôl i ni gipio'r awenau ym 1976.

Aethom ati hefyd i gael hyd yn oed y cynghorwyr Llafur i gredu mai ni fyddai'n ennill yr etholiad hwnnw. Rwy'n cofio'r Maer, Jack Handley, yn fy ngheryddu am rywbeth neu'i gilydd gan ychwanegu 'Fyddwch chi ddim yn cael pethau mor hawdd pan fyddwch chi'n rheoli'r cyngor wedi'r etholiad nesaf' – ac wedyn gochi wrth sylweddoli'r hyn a ddywedodd. Doedd ei gyfeillion ar y beinciau Llafur ddim yn hapus gydag e am ddangos y fath ffydd ynddynt!

Cipio'r Awenau

Ar ôl etholiad 1974 roedd 3 o gynghorwyr y Blaid, 2 Drethdalwr a 28 o aelodau'r Blaid Lafur. Proffwydais innau wedi'r etholiad nesaf y byddai 21 o gynghorwyr gan y Blaid, 9 gan y Blaid Lafur a 3 o rai eraill. Canlyniad etholiad 1976 oedd ethol 21 o gynghorwyr y Blaid, 8 o aelodau Llafur a 4 eraill. Dylwn fod wedi gosod bet ar y canlyniad!

Rwy'n credu mai 4 ohonom ni, aelodau'r Blaid, oedd ag unrhyw brofiad ar Gyngor – a neb â phrofiad rhedeg cyngor, wrth gwrs. Heb fawr cymorth gan neb arall – hyd yn oed swyddfa ganol Blaid – bu raid inni fynd ati i ddysgu mewn swydd. Yn naturiol ddigon, roedd y Blaid Lafur yn ceisio gwawdio popeth a wnaethom a rywsut daeth rhan helaeth o'r Blaid ei hun o'r tu allan i Ferthyr i goelio eu celwyddau. Ymhlith y pethau a wnaed gennym oedd:

- Torri lawr ar dreuliau'r maer a'r cynghorwyr
- Canslo cynlluniau'r Cyngor Llafur i adeiladu swyddfeydd newydd gan inni farnu
- bod pethau eraill yn bwysicach
- Defnyddio Cynlluniau Creu Swyddi i glirio sbwriel o nifer fawr o ardaloedd a'u paratoi ar gyfer datblygiad
- Dosrannu grantiau i bob ward yn y dref i'r trigolion lleol benderfynu sut i'w gwario ar welliannau amgylchfydol a chyfleusterau hamdden
- Adeiladu Unedau Ffatrioedd Meithrin yn wyneb gwrthwynebiad Llafur
- Sefydlu Cymdeithas Tai i gymryd mantais ar y grantiau oedd ar gael i gyrff felly adeiladu tai newydd a moderneiddio rhai hen
- Sefydlu sustem fwy teg o benderfynu pwy fyddai'n cael tenantiaeth tai cyngor yn ôl yr angen yn lle'r drefn o grafu cefnau cynghorwyr oedd mewn bod o'r blaen
- Sefydlu cymdeithasau tenantiaid ar bob ystâd i fod yn gyfrifol am y rhaglen drwsio tai
- Sefydlu parciau chwarae i blant bach ym mhob ward a chynlluniau chwarae plant yn y gwyliau

- Cyhoeddi manylion pob cais am hawl cynllunio a gwahodd sylwadau
- Cynnal cyfarfodydd agored ar bob safle oedd yn ymwneud â cheisiadau hawl cynllunio a rhoi cyfle i bawb – hy pobl y gymdogaeth yn ogystal â chynghorwyr) ddweud ei ddweud yn y cyfarfodydd hynny
- Sefydlu Ymddiriedolaeth Merthyr i ddechrau'r gwaith o ofalu'n iawn am dreftadaeth gyfoethog y dref
- Sefydlu Polisi Dwy-ieithrwydd, oedd yn rhagweld symud o gam i gam i wneud popeth yn ddwyieithog a hynny er mwyn mynd â'r bobl gyda ni yn lle codi eu gwrychyn.
- Cynyddu grantiau i grwpiau gwirfoddol a chymunedol
- Codi 1 geiniog ychwaneg ar y dreth er mwyn sefydlu cronfa i adeiladu Pwll Nofio teilwng yn y dref
- Gwneud arolwg barn go eang i benderfynu a fyddai'n well gan bobl i ni gadw'r trethi i lawr neu'n hytrach eu codi rywfaint cyhyd a bod yr arian ychwanegol yn cael ei dreulio ar flaenoriaethau'r bobl. Ym mhob ardal o'r dref, o'r un mwyaf cyfoethog i'r tlotaf, yr adwaith oedd y dylid codi mwy i sicrhau gwasanaethau gwell. Tybed a oes gwers yma i wleidyddion heddiw sy'n mynnu o hyd ac o hyd na allant godi trethi a bod rhaid cwtogi gwasanaethau? Rwy'n derbyn bod nifer sylweddol o bobl yn cael anhawster i gael dau ben llinyn ynghyd. Ond ar y llaw arall mae llawer o wario ar eitemau cwbl ddianghenraid ac ar gemau a'r tegan technegol diweddaraf i'r plant. Yn aml mae rhywun yn teimlo bod rhai pobl yn gorfod chwilio am bethau i wastraffu eu harian arnynt. Yn sicr, gallai nifer fawr o'r rheini sy'n talu trethi dalu mwy er mwyn diogelu gwasanaethau angenrheidiol megis addysg a iechyd. Chwilen arall yn fy mhen!

Chwilen arall yw honno am fudd-daliadau a'r ddadl rhwng budd-daliadau i bawb a budd-daliadau seiliedig ar brawf moddion. Dylid disgwyl i'r rheini sy'n gallu gweithio wneud hynny, ac os nad oes gwaith ar gael fel arall dylai'r wladwriaeth roi gwaith iddynt yn gwella bywydau pobl leol a'u hamgylchfyd gan roi cyflog sylfaenol iddynt. Dylid sicrhau incwm teg i'r rheini na ellir disgwyl iddynt weithio, gan gynnwys yr henoed, rhieni a phlant bach a phobl sydd ag anabledd

neu sy'n dioddef gan afiechydon. Ni ddylid gwneud y taliadau hynny'n ddibynnol ar brawf moddion; dylid eu rhoi i bawb na ellir disgwyl iddynt weithio.

Ond dylid cyfrif yr incwm yna wrth benderfynu a ddylai'r person hwnnw dalu treth incwm ai peidio. Mae pawb yn gorfod mynd trwy brawf moddion wrth i swyddfa'r dreth incwm benderfynu a ddylid codi treth arnom, ac os felly faint. Nid yw prawf moddion yn ymddangos yn sarhad os defnyddir y prawf wrth benderfynu faint y dylem gyfrannu at gostau'r wladwriaeth. Mi all ymddangos yn sarhad os ydych mewn angen ac yn gorfod gofyn i'r wladwriaeth am gymorth. Mae gweithredu dwy sustem o brawf moddion yn gwbl ffôl a dianghenraid (a chostus). Os mae incwm rhywun yn cwmpo o dan y lefel y disgwylid iddo dalu trethi, yna dylid talu'r gwahaniaeth iddo mewn budd-daliadau.

Yn ôl i Gyngor Merthyr. Gall eraill farnu a ydy'r record – gan griw dibrofiad, yn wyneb ymosodiadau eithaf ffaidd weithiau gan y Blaid Lafur ac yn aml heb fawr cymorth gan y swyddogion – yn un i ymfalchïo ynddo ai peidio. Rhaid cofio nad oedd y cyngor ar y pryd yn gyfrifol am rai o'r gwasanaethau pwysicaf megis addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Roeddwn â swydd amser llawn yng Nghasnewydd trwy'r cyfnod yma a bum yn weithgar hefyd gydag ychydig gyfeillion wrth sefydlu cwmni cydweithredol i wneud dillad i Marks & Spencer pan gaewyd ffatri Berlei yn Nowlais a hefyd wrth sefydlu Canolfan Gwrthsefyll Tlodi De Cymru – un o'r mudiadau cyntaf i gael cymorth ariannol gan yr Undeb Ewropeaidd.

Cafwyd peth llwyddiant ar y cyngor hyd yn oed ar ôl colli'r awenau ym 1979, yn enwedig felly pan oedd sôn bod y Blaid Lafur am wyrdroi ein polisi dwyieithrwydd. Roedd y cyngor wedi penderfynu gefeillio a Clichy la Garene yn Ffrainc a dyma grŵp o gynrychiolwyr Clichy'n ymweld â Merthyr yn rhan o'r dathliadau. Dyma fi'n codi yn y cyngor a'u croesawu yn Gymraeg – a gallwn glywed yr aelodau Llafur yn grwgnach am hynny. Felly dyma fi'n troi i'r Ffrangeg a'u croesawu yn eu hiaith eu hunain (roeddwn wedi ymarfer ymlaen llaw gydag un o'n haelodau ifainc, Alain Thomas, oedd yn rhugl yn yr iaith gan fod ei fam

yn hanu o Toulouse). Roedd hynny'n dipyn o sioc i'r cynghorwyr Llafur. Es ymlaen i gynnig y dylem o hyn allan fabwysiadu polisi tair-ieithog mewn parch i gyfeillion Clichy. Roedd hyn yn ormod i'r aelodau Llafur (oedd yn geidwadol iawn yn y bôn) ac fe'm trechwyd wrth iddynt benderfynu glynu wrth eu polisi presennol. Fe gymerodd beth amser iddynt sylweddoli iddynt felly gadarnhau polisi dwyieithrwydd y cyngor. Ys dywedir, mae sawl ffordd i gael Wil i'r gwely!

Ar wahân i'r Ffrangeg, rwyf hefyd wedi traethu'n gyhoeddus yn Rwseg a Sbaeneg. Ces gyfle i arfer peth ar fy Rwseg gyda'm merch Nia, sydd â gradd BA dosbarth cyntaf a gradd MA yn Rwseg ac a fu'n darlithio am sbel ym Mhrifysgol Krasnodar yn Ne Rwsia, nepell o Chechnya. Roedd Margaret a minnau'n aelodau o Gymdeithas Gefeillio Caerdydd a Lugansk yn yr Wcráin, ac aeth grŵp ohonom draw yno. Dewiswyd fi i ddweud gair o gyfarch ar ran y grŵp yn Saesneg a Rwseg. Wedi'r areithiau, dyma nifer o bobl yn heidio ataf i siarad Rwseg a fi - a minnau'n gyfangwbl ar goll! Peth go hawdd yw siarad iaith arall – mater cwbl wahanol yw deall yr ateb. Mae Margaret lawer gwell na fi yn y cyswllt yna.

Araith tri gair oedd honno a wnes yn Sbaeneg. Roeddem ar ein gwyliau yn Cuba ac wedi mynd â llond blwch mawr o foddion meddygol i'w rhoi i ysbyty mawr o'r tu allan i Santiago de Cuba, gan feddwl eu gadael yn y swyddfa. O na, roedd rhaid i ni weld meddyg, ac roedd yntau'n mynnu'n bod ni'n gweld Rheolwr yr ysbyty. Ond a hithau'n fore Sadwrn, roedd yntau yng nghanol cyfarfod o Bwyllgor Rheoli'r Ysbyty a dyma yntau'n mynnu'n bod ni'n cwrdd â'r Pwyllgor cyfan - oedd yn cynnwys dau gynrychiolydd o bob grŵp o'r staff – 2 feddyg, 2 nyrs, 2 lanhawr, 2 glerc ac yn y blaen. Dyma'r Rheolwr yn gwneud arraith emosiynol cyn cyflwyno ni i'r aelodau ac wedyn yn fy ngwahodd innau i siarad hefyd. Prin iawn yw fy Sbaeneg a'r cyfan y gallwn feddwl am wneud oedd cyffwrdd a'm pen a dweud "Non comprendo", ac wedyn roi fy llaw ar fy nghalon a dweud "Comprendo". Dwy erioed wedi cael cymeradwyaeth mor fyddarol!

Gweithredu Uniongyrchol

Er yn gweithio'n wleidyddol yn bennaf erbyn hyn, roeddwn yn dal i gredu bod sefyllfaoedd yn codi lle y gallai gweithredu uniongyrchol fod yn fwy effeithiol, a threfnais nifer o weithrediadau felly tra ar y cyngor. Roedd hyn yn cynnwys blocio'r stryd fawr a phaentio'n croesfan ein hunain i gerddwyr ar y ffordd ym Merthyr Vale; meddiannu swyddfa'r prif swyddog addysg yng Nghymru mewn ymgais i gadw ysgol fechan Merthyr Vale oedd dan fygythiad; cynghori trigolion Hirwaun ar sut i weithredu i berswadio Nwy Prydain na ddylid rhoi tanc nwy naturiol enfawr yng nghanol y pentref; a blocio'r briffordd unwaith eto i roi pwysau ar y llywodraeth i adeiladu ffordd newydd i osgoi pentrefi'r cwm.

Roedd yr holl weithredoedd yma'n llwyddiannus, hynny yw, fe enillwyd y dydd ar bob achlysur. Gellir dweud bod y trefniadau i flocio'r ffordd yr ail dro yn rhy lwyddiannus. Roedd nifer helaeth o bentrefwyr Troedryhiw wedi troi allan ymhell cyn yr amser penodedig – a'r merched wedi dod â'u gwau ac yn mwynhau sgwrs ar ganol y ffordd – nes i'r criw teledu oedd ar y ffordd i ffilmio'r achlysur gael eu dal mewn cwt ceir ryw 4 milltir o hyd, a methu â chyrraedd y gwrthdystwyr eu hunain! Ond cafwyd y ffordd fawr newydd yn fuan wedyn.

Dysgais wers bwysig wrth weithio dros y Bwrdd Ysbytai, gyda llaw. Os oedd ryw Faer neu Gadeirydd Cyngor neu Aelod Seneddol yn dod i'n pencadlys i gwyno am gynlluniau'r Bwrdd yn eu hardal nhw, doedd dim o'r prif swyddogion yn malio dim. Roeddent yn gwybod mai sgwrs fach ddigon gwâr oedd yn eu disgwyl. Ond os oeddent yn disgwyl criw o fenywod dig, roeddent ar bigau drain am oriau yn gwybod bod amser caled o'u blaen! Roedd hynny mewn cof gennyf pan es â mamau plant Ysgol Merthyr Vale gyda fi i feddiannu'r swyddfeydd addysg yng Nghaerdydd. Dyma nhw'n gosod eu traed ar y bwrdd ac agor eu fflasgiau te a choffi'n ddigon eofn, a'r prif swyddog yn diflannu. Cyn bo hir, daeth y neges y byddai'r ysgol yn aros ar agor!

Doedd pob un o'n gweithredoedd uniongyrchol ddim mor llwyddiannus, wrth gwrs. Ymhlith y rhai na ddaeth unrhyw welliant yn eu sgil oedd meddiannu swyddfeydd Dur Prydain yng Nghaerdydd a phicedu cartref Prif Swyddog Dur Prydain yn ei gartref ysblennydd mewn pentre bach cyfoethog yn Lloegr. Methiant hefyd oedd pob ymgais i achub ffatri teganau Triang ym Merthyr. Ar un achlysur aethom a meddiannu swyddfa grach Llywydd y Bwrdd Masnach yn Llundain, ac adeg arall aethom i wrando ar ddadl mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cymreig yn y senedd. Roedd Ysgrifennydd Cymru'n ceisio amddiffyn y ffaith iddo ddychwelyd arian i'r Trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Codais innau a gofyn pam na allai roi help llaw i ffatri Triang ym Merthyr.

Yn sydyn, dyma ddynion yn neidio arnaf o bob tu – fel y gwnaethant ar y bachgen wrth fy ochr flynyddoedd cynt yn y carchar – a mynd â fi lawr a thafllu fi yn y celloedd dan Neuadd Sant Steffan, gan ddweud y byddai'n rhaid i mi aros yno nes i eisteddiad y Senedd orffen am y diwrnod. Yn y pendraw, daeth Aelod Merthyr, Ted Rowlands (a elwid yn Yellow Tedi gennym yn ystod isetholiad 1972 am iddo beidio â derbyn fy ngwahoddiad i ddadl gyhoeddus!), i geisio helpu, chwarae teg iddo. Ond rhy hwyr! Roedd Gwynfor eisoes wedi dod lawr a'u perswadio fy mod i'n foi da ac yn haeddu fy rhyddhau. Chwarae teg iddo yntau hefyd!

Gyda record wleidyddol da a rhai llwyddiannau trwy weithredu'n uniongyrchol, pam y collasom reolaeth ar Gyngor Merthyr ym 1979? Yr elfen bwysicaf yw'r ffaith i etholiad 1979 gael ei chynnal ychydig wythnosau wedi cyflafan refferendwm y flwyddyn honno a oedd mor andwyol i ysbryd y Blaid yn gyffredinol. Ar ben hynny, cynhaliwyd yr etholiadau lleol yr un diwrnod â'r etholiad cyffredinol am y senedd. Mewn etholiad felly mae llawer mwy o bobl yn troi allan i bleidleisio a llawer o'r rheini ddim yn cymryd cymaint â hynny o ddi-ddordeb yn yr etholiad ond yn hytrach yn pleidleisio yn yr hen ddull traddodiadol. Y canlyniad oedd i amryw o'n haelodau gynyddu eu pleidlais oddi ar 1976 ond serch hynny golli'r sedd a ninnau'n ôl i ryw 3 neu 4 o gynghorwyr yn unig. Aethom ati i ddechrau paratoi am yr etholiad nesaf, ond heb yr awch oedd gennym o'r blaen efallai. Roedd yn

ydddangos i mi fod amryw o'n haelodau wedi cael eu suddo i mewn i'r gêm wleidyddol – h.y. maen nhw wedi'n curo ni y tro yma, rhaid i ni eu curo nhw tro nesaf – yn hytrach nag ystyried polisïau a'r hyn yr hoffem ei wneud pe baem ni'n adennill rheolaeth ar y cyngor. Roeddwn yn diflasu rywfaint ar yr agwedd honno a rywbryd y pryd hynny y deuthum i anghytuno'n sylweddol ag arweinyddiaeth y Blaid ynglŷn â'i pholisi tuag at yr Undeb Ewropeaidd.

Yr Undeb Ewropeaidd, Karl Marx a Chomisiwn Ymchwil y Blaid

Roeddwn yn erbyn yr Undeb Ewropeaidd o'r dechrau. Nid am fy mod yn erbyn cydweithrediad rhyngwladol: mae hynny'n anorfod ac yn bwysig iawn. Ond credais fod yr Undeb yn ymgais gan rai gwleidyddion yn Ewrop i ffurfio uned fawr gref tebyg i Unol Daleithiau America yn Ewrop – yn seiliedig, wrth gwrs, ar gyfalafiaeth. Ni allwn dderbyn hynny.

Roedd arweinyddiaeth y Blaid, mae'n ymddangos i mi, wedi eu hudo gan unrhywbeth fyddai'n gwanhau gafael San Steffan ar Gymru. Ond ni allwn innau weld y byddai cael ein rheoli o Frwsel, lle na fyddai gennym nemor dim llais o gwbl, fymryn gwell na chael ein rheoli gan Lundain!

Gellir dadlau i'r Undeb erbyn hyn sefydlu corff i ddiogelu rhanbarthau a bod cynrychiolwyr Cymru â rhywfaint o ddylanwad yno. Ond y gwir amdani yw bod yr Undeb yn symud yn raddol tuag at greu gwladwriaeth ffederal yn Ewrop fyddai yn y pendraw yn golygu tranc cenhedloedd bychain fel y Cymry. Ac wrth gwrs, mae'r Undeb yn dal i hybu cyfalafiaeth – h.y. trefn economaidd sy'n ffafrio cwmni mawr cyfalafol ar draul pobl a'u cymdogaethau. Dyna paham y mae'r Undeb mor eiddgar i lyncu gwledydd tlawd dwyrain Ewrop. Wrth ymuno â'r Undeb fe'u gorfodir i breifateiddio rhan helaeth o'u gwasanaethau er mwyn i gwmnïau mawr y gorllewin elwa ar y cyflogau isel sydd ar gael yna, serch bod hynny'n creu diweithdra yma yn y gorllewin. Mae'r ffordd y mae swyddi'n symud o'r gorllewin i'r dwyrain yn amlwg iawn wrth yrru ar y cyfandir – rhes ar ôl rhes o loriau gwledydd y dwyrain yn cludo'u nwyddau rhad inni, ond prin iawn y gwelir loriau o'r gorllewin yn mynd â nwyddau iddyn nhw.

(Das Kapital)

Rhoddais gromfachau o gwmpas y pennawd yma gan fod y sylwadau a ganlyn dipyn bach o'r neilltu, efallai, yn hytrach na bod yn rhan

hanfodol o'm stori. Ond beth yw'r pwynt o ddarllen Das Kapital os nad wyf am ymateb iddo?

Dydw i ddim yn un sy'n darllen llawer am bleser (ar wahân i straeon ditectif Donna Leon a nofelau a storïau byrion Bulgakov), ond rwyf yn darllen pethau sydd yn ymddangos yn bwysig. Un o'm llyfrau darllen yn ystod y gwyliau rai blynyddoedd yn ôl oedd Das Kapital. Roeddwn eisoes wedi darllen Maniffesto Comiwnyddol 1848 i geisio deall beth yw Comiwnyddiaeth. Doeddwn ddim callach wedi darllen hwnnw. Yr unig sylw sylweddol yno yw'r geiriau olaf enwog: Gweithwyr y Byd, Ymunwch: Does dim i'w golli ond eich cadwyni. Mae cyfalafwyr ysywaeth wedi cymryd mwy o sylw o'r her yna na'r gweithwyr eu hunain. Aethant ati i sicrhau amodau dipyn gwell i'r gweithwyr a chefnogi'r syniad o ddemocratiaeth o dirfeddianwyr – neu o leiaf annog gweithwyr i brynu eu tai eu hunain, a hynny am y byddai ganddynt rywbeth i'w golli wedyn ac felly'n llai parod i ymuno i gynorthwyo'i gilydd megis mewn streic.

Beth bynnag, es ati i ddarllen Das Kapital i weld beth oedd ateb Marx i'r sefyllfa hon dim ond i ganfod nad oedd ganddo yntau ddim atebion ychwaith! Mae Das Kapital yn gymysgedd ryfeddol o lyfr. Mae'n olrhain sut y tyfodd arian i reoli dyn ac yn dyheu am oes ffiwdal lle'r oedd crefftwyr yn dysgu prentisiaid ac yn cydweithio â'i gilydd yn eu hurddau proffesiynol. Yn raddol daeth technolegau newydd i gynorthwyo dynion i wneud eu gwaith, a pheth da oedd hynny. Daeth y trobwynt yn ôl Marx, pan ddatblygwyd technoleg i gymryd lle gwaith dyn. Dyna roddodd gyfle i'r cyfalafwyr gymryd drosodd.

Mae rhan helaeth o'r llyfr yn llawn ffeithiau ac ystadegau ynglŷn â gweithgareddau ffatrïoedd ym Mhrydain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a cheir ymgais (sy'n edrych braidd yn chwerthinllyd erbyn hyn) i drosi problemau cymdeithasol a ddaeth yn sgil y datblygiadau hyn yn hafaliaid algebraidd diystyr. Ond rhaid cofio bod gwyddoniaeth a mathemateg yn tyfu'n fwyfwy pwysig yn ei oes ef ac mae'n siŵr iddo deimlo'r angen i ennyn parch i'w syniadau trwy honni eu bod nhw'n

wyddonol. (Cwrddais â dyn yn Grangetown Caerdydd oedd yn mynnu iddo gyfieithu'r Beibl i fathemateg; ond stori arall yw honno).

Weithiau, mae Marx hefyd yn gwneud yr un un datganiad drosodd a throsodd ugeiniau o weithiau ond heb gyrraedd unman yn y pendraw (megis opera gan Wagner!). Adegau eraill mae'n taflu syniadau diddorol o gwmpas heb ymhelaethu arnynt. Mae'n amlwg bod Marx yn ochri gyda'r gweithwyr ac mae'n cefnogi undebau llafur. Ond ni cheir unrhyw awgrym sut y gellid newid y sustem oedd yn bodoli nac unrhyw raglen wleidyddol ychwaith. Ar ddiwedd y llyfr, deuthum i'r casgliad bod agwedd Marx yn debyg iawn i eiddo Ted Heath!

Mae'n ddrwg gennyf os yw'r sylwadau hyn yn tarfu ar fy nghyfeillion Comiwnyddol ond nid wyf yn deall paham y mae Marx yn rhyw fath o dduw iddyn nhw fwy nag ydw i'n deall pam yr oedd Gwynfor yn rhyw fath o dduw i aelodau'r Blaid!

Yn ôl i Ewrop

Beth bynnag am hynny, un o'r llyfrau neu ddogfennau eraill a ddarllenais yn ystod fy ngwyliau oedd y darpar Gyfansoddiad Newydd i'r Undeb. Cefais anhawster mawr i gael gafael arno, a dywedwyd wrthyf gan rywun o swyddfa'r Undeb Ewropeaidd i Lywodraeth Prydain ddweud nad oeddent am iddo gael ei ledaenu'n eang ym Mhrydain! Yn y pendraw, cefais gopi trwy law fy hen gyfaill (neu'n hytrach gyfaill bythol-ifanc!) Owen John Thomas gan iddo ef gael copi am ei fod yn AC. Ynddo ceir sôn am hawliau'r Undeb yn ganolog a hawliau'r gwledydd unigol – ac wrth gwrs fe wneir môr a mynydd gan gefnogwyr yr Undeb o'r "Subsidiarity" yma. Ond roedd cymal bach yno hefyd yn dweud y gallai'r canol, ar unrhyw achlysur, dynnu hawliau'r gwledydd unigol yn ôl i'r canol os dymument.

Cefais sgwrs ag Aelod o'r Senedd Ewropeaidd ynglŷn â hyn (nid un o aelodau'r Blaid, gyda llaw). Ni wyddai am y cymal bach pwysig hwnnw. Ceisiodd ddadlau nad oedd yn bwysig beth bynnag gan na fyddai'r Undeb fyth yn defnyddio'r hawl yna i dynnu pwerau'n ôl o'r

gwledydd unigol. Os felly, dywedais, pam cynnwys y cymal yn y lle cyntaf? A hyd yn oed os na fyddai'r Aelodau presennol yn caniatáu hynny, beth allai ddigwydd yn y dyfodol?

Rhaid cyfaddef nad wyf yn gwybod a ydy'r cymal hwnnw yn rhan o'r diwygiadau i gyfansoddiad yr Undeb a wnaed gan Gytundeb Lisbon pan fethwyd a chael cydsyniad pawb i gyfansoddiad newydd ond mae'n dangos yn ddigon clir i mi i ba gyfeiriad mae gwleidyddion Ewrop am fynd!

A dyna reswm arall dros wrthwynebu'r Undeb Ewropeaidd heblaw ei chyfalafiaeth dreisgar. Gwladwriaethau mawr y byd sy'n bygwth heddwch y byd ac nid y rhai bychain. Y gwledydd mawr sy'n awchu am ymerodraeth, neu am orfodi pobloedd eraill i gydymffurfio â'u syniadau nhw o sut y dylid trefnu pethau. A'r gwledydd mawr sydd mewn sefyllfa i ecsploetio (dyna ryfedd, does gennym 'run gair yn Gymraeg sy'n cyfleu'r ystyr yna!) bobloedd eraill y byd am eu hadnoddau gwerthfawr. Mae rhai'n dadlau bod angen gwledydd mawr a grymus gwâr i wrthsefyll y rhai drwg – ond mae symbyliad y rhai "da" yn aml iawn yn amheus. Wrth gwrs mae angen corff cryf i sicrhau heddwch y byd ond yr unig ffordd dderbyniol o greu corff felly – fel y sylweddolodd Henry Richard dros ganrif yn ôl – yw trwy wneud y cenhedloedd unedig yn gorff effeithiol.

Yn hanes Lloegr, bu ymrafael gwaedlyd di-baid rhwng barwniaid pwerus ac ni chafwyd heddwch nes sefydlu llywodraeth gref ganolog nad oedd y barwniaid unigol yn ddigon pwerus i'w herio. Bu cryn amser cyn gosod arlliw o ddemocratiaeth ar y llywodraeth honno, wrth gwrs, ond mae'r wers yn glir. Ni cheir heddwch rhyngwladol nes i'r corff canolog fod yn fwy pwerus na gwledydd unigol. Ni fyddai corff o'r math, er enghraifft, yn caniatáu i lywodraeth Israel ddwyn tir y Palestinaid, eu troi nhw allan o'u cartrefi a'u bomio'n ddirugaredd. Ac fel mae penderfyniadau'r Cenhedloedd Unedig wedi dangos lawer gwaith, ni fyddai'n caniatáu i'r Unol Daleithiau gynllwynio'n filitaraidd ac yn economaidd i ddyrchwyl llywodraeth etholedig Cuba yn unig am

nad ydynt yn barod i gydymffurfio â pholisïau cyfalafol ac ymerodraethol yr Unol Daleithiau.

Gwledydd unigol bychain a Chenhedloedd Unedig cryf yw'r ateb yn y pendraw a dylem fod yn gweithio tuag at hynny yn hytrach na chynorthwyo gwleidyddion Ewrop i greu ymerodraeth newydd iddynt eu hunain a'u cyfeillion ym myd busnes.

Y Blaid eto

Yn ôl at y cyfnod wedi refferendwm 1979. Penodwyd "comisiwn" i ymchwilio i ganlyniad siomedig y Blaid ac i amlinelli'r ffordd ymlaen . Cefais fy newis i'r comisiwn hwnnw a buom yn cwrdd yn weddol rheolaidd am gyfnod o rai misoedd. Un o'r materion mwyaf dyrys oedd yn ein wynebu oedd sut i gadw gwahanol garfanau'r Blaid at ei gilydd. Erbyn hynny roedd grŵp bychan ond dylanwadol dan arweiniad Dafydd Elis Thomas a Robert Griffiths – Ysgrifennydd Cyffredinol Plaid Gomiwnyddol Prydain erbyn hyn ond ar staff y Blaid y pryd hynny – yn ceisio gwthio'r Blaid nid yn unig i arddel polisïau sosialaidd ond hefyd i ddefnyddio geirfa a sloganau sosialaeth radical. Roedd hyn yn creu adwaith ymhlith nifer sylweddol o bleidwyr nad oeddent yn uniaethu gymaint â gwleidyddiaeth ymosodol yr ardaloedd diwydiannol.

Dro ar ôl tro, ceisiais ddadlau mai cynnwys y polisi oedd yn bwysig, nid y label. Ond doedd hynny ddim yn ddigon "trendy" i Dafydd EI. Nid wyf yn cofio fawr ddim gwahaniaeth rhwng gwahanol garfanau'r Blaid ar bolisïau – roedd cynnwys y polisïau'n sosialaidd ddigon. Ond roedd dadlau mawr yng nghylch y label gan fod un garfan yn dod o safbwynt athroniaeth wleidyddol a'r llall o safbwynt y strwythur gymdeithasol naturiol oedd yn gynhenid i'r rhan fwyaf o'r Cymry. Ond i mi, ba ots am hynny os oedd pawb yn cefnogi'r un un polisïau?

Dyma'r Comisiwn yn ceisio datrys y broblem trwy argymhell ein bod ni'n arddel sosialaeth gymunedol, ddatganoledig ac awgrymwyd y dylid cynnwys cymal i'r perwyl yn ein cyfansoddiad. Felly y bu, a dechreuodd y Blaid gyd-dynnu'n well ar ôl hynny. Ond rhaid i mi

ddweud, cefais fy niflasu rywfaint y pryd hynny gan agwedd arwynebol ond digyfaddawd rhai o'r aelodau. Wedi hynny, wrth gwrs, aeth Robert i'r Blaid Gomiwnyddol a Dafydd El i Dŷ'r Arglwyddi! Hmm!

Ymgyrch y Sianel Deledu a symud i Maesycwmer, 1980au cynnar

Dyma'r adeg hefyd wrth gwrs y bu raid brwydro yn erbyn bwriad y Llywodraeth Doriäidd newydd i dorri eu haddewid i sefydlu sianel deledu Gymraeg. Bu llawer o brotestio, wrth gwrs, ond yr hyn berswadiodd y llywodraeth i newid eu bwriad a chadw eu haddewid oedd bygythiad Gwynfor Evans i lwgu hyd farwolaeth.

Rwy'n cofio siarad ar lawer llwyfan gyda Gwynfor y pryd hynny. Y cyfarfod gorau oedd hwnnw a drefnwyd ym Merthyr. Roeddem wedi cynhyrchu nifer o gwpanau mawr crochenwaith hen ffasïwn ag enw Gwynfor arnynt, gan gyflwyno'r un mwyaf i Gwynfor ei hun a gwerthu'r lleill er mwyn codi arian i'r achos. Ac yn y diwedd, wrth gwrs, dyma'r llywodraeth yn ildio. Yn ddiamau, dyma fuddugoliaeth fwyaf Gwynfor Evans.

Nid wyf wedi ateb hyd yma y cwestiwn a ofynnais i mi fy hun wrth ddechrau sôn am Gwynfor. Beth sydd i'w ddweud amdano? Roedd yn gymeriad cymhleth heb fod yn hawdd i'w adnabod. Yn sicr roedd rhyw uchelgais bersonol yn rhan bwysig ohono – nid uchelgais yn yr ystyr gyffredin ond uchelgais i fod yn arweinydd y genedl, i fod yn achubydd y genedl a weithiau roedd hynny'n bwysicach iddo na lles y mudiad cenedlaethol ei hun. Doedd e ddim yn wleidydd wrth reddf – ac roedd e'n camddechongli natur a symbyliad pobl eraill yn aml – ond roedd ganddo'r ddawn i ddal ati dros gyfnod maith. Roedd gweithredu fel rhyw broffwyd o'r Hen Destament yn fwy wrth ei fodd na manion gwleidydda, ac eto methodd a gwneud safiad ar fater Tryweryn tra'n gwrthsefyll am gyfnod sylweddol bob ymgais i wneud y Blaid yn blaid wleidyddol effeithiol.

Ond fe esgorodd ei fethiant yn achos Tryweryn ar Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, ac ymgyrchoedd llwyddiannus y gymdeithas honno. Tybed beth fyddai wedi digwydd pe bai'r Blaid ei hun wedi gwneud safiad mwy dewr yr adeg honno? Ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith a sicrhaodd yr addewid gan y Torïaid i sefydlu'r sianel Gymraeg yn hytrach na gwleidydda'r Blaid. Ond Gwynfor a orfododd y llywodraeth

Dorïaidd i gadw eu haddewid, ac am hynny dylai'r genedl fod yn ddiolchgar iawn iddo. Mae'n ddiddorol sylwi mai dulliau arweinydd unig fel rhai'r Hen Destament a ddefnyddiodd Gwynfor yn y cyfng gyngor yma, nid dulliau gwleidyddol.

Maesycwmer

Tua'r adeg yma, ym 1981, bu farw fy mam yn 90 oed. Roedd fy nhad yn 92 oed ac yn byw ar ei ben ei hunan wedi marwolaeth fy mam. Roeddem am ei wahodd i ddod i fyw atom ni pe dymunai ond nid oedd y tŷ yn Nhroedyrhiw yn ddigon mawr. Aethom ati i chwilio am dy mwy rywle rhwng y Bargod, lle'r oedd Margaret yn gweithio a Chasnewydd lle bŵm innau'n gweithio ers 1974. A bod yn onest, roeddwn yn teimlo hefyd ar y pryd fod angen tipyn o hoe arnaf o weithgarwch pleidiol.

Edrychsom ar dai ym Maesaleg a Chaerffili ond yn y pendraw prynsom fwthyn ym Maesycwmer ger Ystrad Mynach. Wel, dau fwthyn mewn gwirionedd ar ben rhes o dai fu unwaith yn swyddfa a gweithfeydd i gwmni Ffrengig adeiladodd bont reilffordd hyfryd rhwng Maesycwmer a Hengoed ym mhym degau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd estyniad wrth ochr y bwthyn ar ben y rhes ac estyniad arall yng nghefn y bwthyn arall.

A dyna pryd y darganfyddai fod gennyf sgiliau na wyddwn eu bod nhw gen i! Roedd yno ddwy ystafell wely fawr ac un weddol fach ac un arall yn fach iawn. Roeddem eisiau stafell bob un i'r tri phlentyn felly dyma fi'n symud y pared rhwng un ystafell fawr a'r un leiaf o fewn pythefnos a gwneud dwy stafell gymedrol. Roedd pen y gofod uwchben y grisiau'n ymwthio i'r stafell fach arall, felly adeiladais wely ar ben y gofod hwnnw er mwyn gwneud yr ystafell yn fwy.

Dros y blynyddoedd nesaf rhoddais lawr newydd llechi yn y cyntedd a llawr teils yn y gegin, adeiladu cypyrddau dillad yn y brif ystafell wely, adeiladu stafell tŷ-bach a chawod a stafell golchi dillad yn rhan o'r estyniad cefn (gan roi nenfwd pren yno a llawr a muriau teils), dad-fricio'r hen le tan ac adeiladu lle tân cerrig newydd yn rhan arall yr

estyniad cefn yn ogystal â rhoi rhwydwaith trydan newydd yno ac estyn y twymo canolog i'r rhan yna o'r tŷ.

O'r tu allan bu raid i mi osod pibell newydd am y cyflenwad dŵr a symud rhan o'r ardd er mwyn symud y drws cefn ymhellach yn ôl a rhoi ffenestr fawr newydd ddwbl yn yr ystafell gefn. Doeddwn erioed wedi gwneud fawr ddim tebyg i hyn o'r blaen ac roedd yn wahanol iawn i'm gwaith bob dydd â'r gwaith gwleidyddol y bŵm yn ymhél ag ef ers blynnyddoedd. Rhaid cyfaddef i mi fwynhau'r holl waith llaw yma – yn enwedig wrth weld ffrwyth gweddol sydyn i'm llafur. Mae'n rhaid imi etifeddu peth o ddawn fy hen daid oedd yn saer ac a adeiladodd y Tŷ Bwya Cymreig cyntaf yn y Gaiman yn y Wladfa.

Doeddwn i ddim wedi troi fy nghefn ar waith gwleidyddol, cofiwch a dechreuais helpu mewn etholiadau a mynychu cyfarfodydd y Blaid yng Nghwm Rhymni, lle'r oedd y Blaid hefyd wedi bod mewn grym ar y cyngor lleol, er nad gyda mwyafrif clir fel y bu gyda ni ym Merthyr. Roeddwn wedi fy siomi yno na roed fawr ddim sylw o gwbl i'r iaith Gymraeg. Roedd popeth a gyhoeddem ym Merthyr yn ddwyieithog ond roedd taflenni etholiadol Cwm Rhymni yn uniaith Saesneg a bu raid i mi ddadlau dros gael o leiaf rywfaint o Gymraeg ynddynt o hynny ymlaen. Wedi ennill y bleidlais ar y mater, bu raid i mi fynd ati i lunio pwt yn Gymraeg, ond ni ddefnyddiwyd mohono yn y pendraw.

Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd, 1988

Yn fuan ar ôl hyn, a minnau'n dal i weithio ar y tŷ ym Maesycwmer – daeth fy nhad i aros gyda ni unwaith neu ddwy gyda llaw ond aeth i fyw gyda'm chwaer Megan a'i gŵr Tegwel yn Llanon, Ceredigion nes iddo farw ym 1983 – daeth y newydd bod yr Eisteddfod Genedlaethol am ddo i Gasnewydd ym 1988. Bûm yn gweithio yno er 1974 yn Ysgrifennydd Cyngor Iechyd Cymuned De Gwent. Dewiswyd y Dr John Hughes, prif seiciatrydd yr ardal, yn Gadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod a dyn meddygol arall, y llawfeddyg Gwilym Griffiths, yn gadeirydd y Pwyllgor Llên. Roeddwn i'n adnabod y ddau, wrth gwrs, yn rhinwedd fy ngwaith.

Gofynnodd John i mi gadeirio'r Pwyllgor Cyhoedduswydd a chydysyniais, am imi gredu bod hyrwyddo'r Gymraeg ac ymdeimlad o Gymreictod yn bwysicach yn yr ardal honno na gwaith gwleidyddol. Aeth Margaret a fi i stiwardio yn Eisteddfod Abergwaun ym 1986 er mwyn paratoi adroddiad ac argymhellion i Bwyllgor Gwaith Casnewydd. Bûm i'n gweithio ar hyd yr wythnos y tu allan i gapel bach gryn bellter o Faes yr Eisteddfod oedd yn gartref i'r stiwdio gerdd. Cawsom ein boddi bron bob dydd gan law trwm a dyna pryd y dechreuais ddiodef gan y crug-cymalau!

Y gwaith pwysicaf a ddisgwylid gan y Pwyllgor Cyhoedduswydd y pryd hynny oedd penderfynu pa anrhegion y dylid eu gwerthu yn siop yr Eisteddfod! Mae'n debyg nad oedd angen llawer o gyhoedduswydd fel y cyfryw wrth gynnal yr Eisteddfod mewn ardal Gymraeg neu ardal wledig, ond teimlais fod angen rhywbeth amgenach yng Nghasnewydd. Llwyddais i berswadio'r Pwyllgor Gwaith i sicrhau gwasanaeth David Williams, Swyddog Cyhoedduswydd gwaith dur Llanwern ac aethom ati i baratoi strategaeth gynhwysfawr ar gyfer 1988.

Gwraidd y strategaeth oedd codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r ffaith bod rhywbeth go arbennig yn digwydd ym 1988 ond peidio â rhoi gormod o fanylion man a lle ac ati tan yn weddol agos i'r dyddiad ei hun. O roi gormod o fanylion ar y dechrau, teimlem y byddai pobl yn mynd mor

gyfarwydd â nhw nes eu hanwybyddu cyn i'r Eisteddfod gyrraedd – polisi tebyg i'r cyfarwyddyd milwrol i beidio â saethu nes gweld llygaid y gelyn, os mynnwch. Roedd y Pwyllgor Gwaith yn amheus iawn o'r strategaeth yma ar y dechrau, ond serch hynny llwyddwyd i gadw ati.

A bu'n llwyddiant mawr. Aethom ati i gynhyrchu posteri mawr i'w rhoi ar ochr y ffordd a rhai llai y byddai pobl yn barod eu dangos mewn siopau a swyddfeydd. Aeth Margaret a minnau rhyngom, dros nifer o fisoedd, i bron pob siop trwy Gwent gyfan i'w hannog i ddangos ein posteri, a chafwyd ymateb gwych. Aethom â stondin i bron pob ffair a gynhelid yn y sir dros y ddwy flynedd cyn yr Eisteddfod. Roedd nifer fechan o aelodau gweithgar iawn ar fy mhwyllgor: un o'r cynorthwywyr mwyaf ffyddlon ar ein stondin oedd Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, John Hughes, ei hun.

Teimlem fod angen ennyn diddordeb plant y sir hefyd. Cynhyrchwyd comig arbennig i'w rhoi i blant holl ysgolion y sir a chafwyd cefnogaeth y Pwyllgor Gwaith i ni roi tocynnau rhad i bobl oedd yn byw yn agos i Faes yr Eisteddfod ar y Sadwrn agoriadol. Gwnaethom bwynt arbennig o annog siopau mawr yng nghanol Casnewydd i baratoi arddangosfeydd arbennig, a chafwyd ymateb gwych gan nifer ohonynt. Dwy i ddim yn cofio gweld croeso tebyg i groeso Casnewydd i unrhyw Eisteddfod arall.

Roedd pawb yn gwybod bod rhywbeth go arbennig yn digwydd. Roeddem yn ffodus iawn hefyd, wrth gwrs, wrth gael defnyddio Parc Tŷ Tredegar yn faes i'r Brifwyl – y maes gorau a gafodd yr Eisteddfod erioed am wn i. Cawsom Eisteddfod nodedig iawn. Rhai o'r pethau sy'n aros yn y cof yw bachgen o Went, Robat Powell, yn ennill y gadair; Daniel Evans yn ennill medal newydd Richard Burton; Cymanfa Ganu i'w chofio a chefnogaeth frwd pobl Casnewydd a'r cyngor hwythau, chwarae teg iddynt.

Yn fuan wedyn sefydlwyd ysgol Gymraeg yng Ngwent. Aeth Margaret a minnau i'r diwrnod agor swyddogol a gwelsom ddeigrin mewn llawer llygad – gan gynnwys ein llygaid ni – wrth i'r plant ein hamgylchynu, dal

dwyllo a chanu “Dan ni yma o hyd”. Mae’n debyg mai oherwydd llwyddiant Eisteddfod Casnewydd y ces fy ngwahodd i ymuno â Phwyllgor Marchnata canolog yr Eisteddfod, a dod yn Gadeirydd iddo am dro pan fu raid i Owen Edwards roi’r gorau iddo. Yn ystod y cyfnod hwnnw y cynlluniwyd cyfleusterau croeso gwell i’r Steddfod, sefydlu cymdeithas Cyfeillion yr Eisteddfod a mynnu bod mwy o draciau ar gael o gwmpas y maes rhag tywydd drwg.

Wedi hynny bu Margaret a minnau’n weithgar gydag Eisteddfod Cwm Rhymni ym 1990 ac wedyn gydag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Cross Keys. Mabwysiadwyd mascot gwych i’r Eisteddfod honno – mynydd bychan o’r enw Twm Bwrlwm. Twm Bwrlwm yw enw twmpyn bach ar ben un o’r mynyddoedd cyfagos (bedd hynafol mae’n debyg) a dim ond newid bychan ar yr enw oedd angen i gyfleu bwrlwm yr eisteddfod. Cawsom gefnogaeth frwd gan Gwmni Theatr Ieuencid Gwent. Darparwyd drama ysgafn ddwy-ieithog am Dwm Bwrlwm a’i pherfformio yn nifer fawr o ysgolion Gwent – a Margaret a minnau’n mynd gyda nhw i ddosbarthu tafenni a gwerthu nwyddau’r Eisteddfod.

Bu’r Eisteddfod honno’n llwyddiant mawr hefyd a’r gefnogaeth leol i’r eisteddfodau hyn yn dangos yn glir nad oes amheuaeth gan bobl Gwent i ba genedl maen nhw’n perthyn!

Y Gwasanaeth Iechyd, o'r 1960au ymlaen

Er imi gael ystod eang o wahanol swyddi, treuliais dros 20 mlynedd yn y Gwasanaeth Iechyd – yn gyntaf yn Swyddog Cyhoeddusrwydd i Fwrdd Ysbytai Cymru o 1968-1972, wedyn yn Ysgrifennydd Cyngor Iechyd Cymuned De Gwent o 1974-1993 ac yn olaf yn Rheolwr Iechyd Dosbarth Torfaen o 1993 nes ymddeol ym 1996.

Cefais nifer o brofiadau diddorol gyda llaw mewn cyfweiliadau am swyddi gwahanol. Pan gynigiais am swydd Trefnydd Eisteddfod Ryngwladol Glannau Tees ym 1964 bu raid i mi ymuno mewn cinio mawreddog yng nghanol neuadd go fawr. Roeddent yn cadw'r gwydrau'n llawn nes ei bod hi'n anodd cadw cyfri o faint o wirodydd a yfwyd gennyf. Cyn diwedd y cinio, roedd chwant mynd i'r tŷ bach arnaf ond i gyrraedd hwnnw byddai'n rhaid cerdded ar draws y neuadd fawr yma, a doeddwn i ddim yn sicr o gwbl y gallwn wneud hynny mewn llinell syth! Penderfynais ei fod yn well mentro hynny na chael damwain wrth y bwrdd ac i'r tŷ bach â fi. Does gen i ddim syniad sut siâp oedd ar fy ngherdded, ond mi gefais y swydd.

Dysgais rai triciau digon defnyddiol wrth gynnig am swyddi hefyd. Pan gynigiais am swydd gyda'r Bwrdd Ysbytai, wynebais tua 20 o aelodau i gyd yn gofyn cwestiynau. Roedd un dyn yno oedd yn bennaeth swyddfa gwybodaeth y llywodraeth yng Nghymru, ac roedd gennyf syniad go dda y byddai e'n fy ngwrthwynebu oherwydd fy ngwleidyddiaeth. Penderfynais y byddai'n rhaid dangos fod ganddo reswm personol i ddadlau yn erbyn fy mhenodi. A daeth y cyfle. Gofynnodd yntau ba werth yr oeddwn yn ei roi i ddatganiadau i'r wasg. Roeddwn yn olygydd papur lleol ar y pryd, felly atebais: Dim llawer; rwy'n cael cannoedd bob wythnos gennych chi ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynd syth i'r bin. Chwarddodd pawb, a throes yntau'n lliw piws. Doedd neb yn gwrando ar ei farn ef amdanaf wedyn!

Cyn cael fy mhenodi, dywedais yn glir i mi gredu bod dwy ochr i berthynas rhwng corff swyddogol a'r cyhoedd. Rhan o'r gwaith yn unig fyddai esbonio safbwynt y Bwrdd i'r cyhoedd: yr un mor bwysig fyddai

darganfod barn y cyhoedd a chyfleu honno i'r Bwrdd. Mae'n sicr gen i mai agwedd oleuedig Gwilym Prys Davies a sicrhaodd y swydd honno i mi.

Wrth geisio am swydd Rheolwr Iechyd Dosbarth Torfaen, roeddwn yn herio'r Awdurdod Iechyd i beidio â'm penodi. Rhan bwysig o waith y swyddog newydd yma fyddai gwranddo ar farn y cyhoedd. Roeddwn innau, yn rhinwedd fy swydd yn Ysgrifennydd Cyngor Iechyd Cymuned De Gwent, wedi bod yn rhoi safbwynt y cyhoedd, yn unigolion ac yn gymdogaethau cyfan, o flaen yr Awdurdod am flynyddoedd. Pwy well i'w benodi? Meddais – ac os nad ydych yn fy mhenodi bydd pobl Torfaen ddim yn cymryd o ddifri y ddadl eich bod chi am wrando arnyn nhw. Wrth gwrs, roedd y ffaith i mi ofyn iddynt ohirio'r cyfweiliad gan fy mod yn mynd i weld opera yn La Scala, Milan ddim wedi gwneud niwed i fy achos gan fod un o aelodau'r panel penodi yn Gadeirydd Cwmni Opera Cymru ar y pryd!

Mae'n debyg mai oherwydd fy nghyfraniad i'r Gwasanaeth Iechyd gyda Chyngor Iechyd Cymuned De Gwent ac wedyn yn Rheolwr Iechyd Dosbarth Torfaen y cefais gynnig aelodaeth o Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (MBE) yn nyddiau John Major, yn fuan ar ôl i mi ymddeol. Wrth ymateb, gofynnais beth oedd pwynt yr Urdd gan fod Yr Ymerodraeth Brydeinig wedi mynd i ddifancoll flynyddoedd yn ôl, a dywedais mai'r ymerodraeth honno a'r Blaid Doriaidd oedd dau o'r pethau mwyaf atgas gennyf yn y byd. Cefais lythyr yn ôl i ddweud fod John Major yn gresynu nad oeddwn yn teimlo y gallwn dderbyn y cynnig!

Gwasanaethau Iechyd Meddwl, y 1990au

Ychydig cyn ymddeol ym 1996, roedd Margaret wedi'm perswadio i gymryd rhan yng ngweithgareddau Cymdeithas Mind yng Nghwm Rhymni. Roedd hi'n Brif Swyddog gyda gwasanaethau cymdeithasol Sir Forgannwg yn y cwm, yn gyfrifol am wasanaethau i bobl ag afiechyd neu broblemau meddwl. Bu ymhlith yr ychydig oedd wedi sefydlu cymdeithas Mind yn y cwm ac wedi sicrhau grant gan yr hen Swyddfa Gymreig i brynu tŷ i'w ddefnyddio'n siop a chanolfan galw-mewn. Deuthum yn Drysorydd y Gymdeithas, ac yn dal yn y swydd ym 2010. Yn y blynyddoedd diwethaf buom yn cyflogi staff, agor siop ail law newydd a sefydlu gwasanaethau newydd.

Bûm bron mor weithgar wedi ymddeol ac oeddwn cynt – yn chwilio am arian o bob man, troi'r gymdeithas yn gwmni dyngarol, rhenti ac ailwampio siop fwy drws nesaf ac ati.

Bûm hefyd am rai blynyddoedd yn Gadeirydd ForUs – grŵp a gynrychiolai defnyddwyr gwasanaethau afiechyd meddwl yn sir newydd Caerffili ac yn cynrychioli'r grŵp yna ar nifer sylweddol o bwylgorau lleol. Bu'r gwasanaethau iechyd meddwl bob amser ar waelod y rhestr blaenoriaethau. Rydym yn eiddigeddus iawn wrth weld faint o arian a deflir i mewn i wasanaethau i bobl ag anawsterau dysgu. Hyd yn oed pan fo'r llywodraeth yn mabwysiadu strategaeth newydd ar gyfer pobl ag afiechyd meddwl, dyw arian byth yn dod yn sgil hynny i wireddu'r strategaeth honno. Ac erbyn heddiw, dyw'r cyrff statudol ddim yn cymryd fawr sylw o'r bobl hynny nad yw eu hafiechyd yn un llym ond sydd ar waethaf hynny â phroblemau go ddwfn tymor hir. Os na allant wella a mynd yn ôl i'r gwaith o fewn ychydig wythnosau mae'r gwasanaethau statudol yn anghofio amdanynt.

I fynd yn ôl at y Gwasanaeth Iechyd yn gyffredinol, mae'n ymddangos na all gwleidyddion, boed yn arddel safbwynt chwith neu safbwynt ceidwadol, gadw eu dwylo oddi ar y gwasanaeth yma. Mae'r bobl druan sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn wynebu un ad-drefniant ar ôl y llall, fel arfer cyn iddynt gael eu traed danynt ar ôl yr ad-drefniant

cynt! Mae amser ac egni ac arian yn cael eu hafradu ar broblemau gweinyddol yn hytrach nag ar ddarparu'r gwasanaeth gorau posib i'r cleifion.

Mae llawer o bobl academaidd yn siarad dwli am y gwasanaeth hefyd. Rwy'n cofio wrth ymuno gyntaf â'r gwasanaeth ym 1968 wrando ar Athro mewn coleg meddygol yn dadlau y gellid arbed arian mawr ond inni ddanfôn cleifion adref o'r ysbyty'n gynharach os nad oedd rheswm meddygol i'w cadw yno. Methodd â deall bod costau'r cleifion yn y dyddiau dianghenraid ychwanegol yma'n bur isel, ond o'u danfôn adref byddai cleifion eraill â gofynion llawer trymach yn cymryd eu lle. Gellir gostwng cost unigol pob claf trwy eu danfôn adref'n gynharach, ond byddai costau'r ysbyty ei hunan yn chwyddo.

Dyma un paradocs does bron neb yn ei ddeall. Pan fo pwysau di-ben draw ar wasanaeth cyhoeddus, mai gwneud y gwasanaeth yn effeithiol yn gostus iawn, a'r modd i gynilo yw bod yn aneffeithiol! Nid cost, wrth gwrs, yw'r unig fesur y dylid ei ystyried ond rhaid i bobl ddeall beth sydd ymhlyg yn eu cynlluniau – ac ychydig iawn o dystiolaeth sydd i na gwleidyddion na phobl academaidd ddeall oblygiadau eu syniadau.

Biwrocratiaeth, a gwersi Sweden

Ar ben hynny, mae biwrocratiaeth – mewn llawer o feysydd yn ogystal â'r gwasanaeth iechyd – wedi rhedeg mas o reolaeth. Rwy'n cofio mynd i gyfarfod cyntaf ryw is-bwyllgor newydd. Dyma'r cadeirydd, biwrocrat gyda'r awdurdod lleol, yn cyflwyno drafft o'r Amcanion y tybiai ef y dylai'r pwyllgor eu mabwysiadu. Yr amcan cyntaf oedd cyfarfod yn fisol. Ceisiais ddadlau, er efallai y byddai angen cwrdd yn rheolaidd, na ellid ystyried hynny'n "amcan" y pwyllgor. Ond ni ddeallodd fy mhwynt. Iddo ef, y broses oedd y nod!

Flynnyddoedd cynt clywais Athro arall yn traethu ar y ffactorau oedd yn arwain at leihau hyd bywyd. Dyma fe'n ein sicrhau ni fod ymchwil academaidd yn profi bod hunanladdiad yn lleihau hyd bywyd! Dyna syndod! Ar ôl pendroni am y sefyllfa yn faith, deellais i'r gwasanaeth iechyd gael ei seilio wedi'r ail ryfel byd ar yr un patrwm â diwydiant trwm. Ffatrioedd troi allan cleifion iach oedd yr ysbytai a dyna pam y canolwyd y gwasanaethau mewn llai o ysbytai mawr lle y gellid arbenigo'n well.

Ond wedyn dyma ddechrau defnyddio cyfrifiaduron i reoli unedau diwydiannol – a'r gwasanaeth iechyd yn ceisio dilyn esiampl diwydiant unwaith eto. Mae dynion yn gwybod bod hunan-laddiad yn lleihau hyd bywyd – ond dyw cyfrifiadur ddim yn gwybod hynny nes i rywun fentro'r wybodaeth yna yn ei raglen reoli.

Mae'r gwleidyddion a rheolwyr wedi colli ffydd y gall gweithwyr proffesiynol wneud eu gwaith yn iawn. Rhaid paratoi pob math o gyfarwyddyd iddynt megis rhaglen cyfrifiadur- yn aml gan bobl na wyddant ryw lawer am y pwnc dan sylw - a darparu rhestrau maith o flychau y rhaid rhoi ticiau ynddynt. Mae gweithredu fel hyn yn tanseilio ysbryd y gweithwyr ac yn aml iawn yn rhoi darlun cwbl anghywir o'r hyn sy'n digwydd. Mae llawer o fiwrocratiaid a gwleidyddion yn byw mewn byd ffantasi gan goleddu delwedd gwbl ddychmygol o safon y gwasanaeth y maen nhw'n gyfrifol amdano.

Mewn cyfarfod yn eithaf diweddar, gofynnwyd beth oedd y pethau pwysig inni dalu sylw iddynt wrth lunio polisïau i bobl ag afiechyd meddwl. Anghenion y bobl leol sy'n dioddef o'r afiechyd hwnnw, medde fi - a phawb yn chwerthin ar fy mhen! Wel na, siŵr, meddai'r cadeirydd, rydym yn sôn yma am ofynion Llywodraeth y Cynulliad - h.y. eu pryder nhw oedd a allen nhw dicio'r holl flychau angenrheidiol i fodloni "WAG" yn hytrach na chwrrd ag anghenion y bobl oedd yn dioddef o'r afiechyd! Wnes i ddim traferthu mynd i gyfarfodydd felly dim mwy.

Fy ngwaith yn y Cyngor Iechyd Cymuned oedd cynorthwyo pobl unigol i sicrhau'r driniaeth a'r gofal gorau posib iddynt, eu cynorthwyo i sicrhau ymchwiliad trylwyr os oedd pethau'n mynd o chwith ac i gynorthwyo'r aelodau yn eu gwaith o lunio sylwadau ar safon y gwasanaeth lleol ac ar unrhyw gynlluniau i'w newid neu i fabwysiadu polisïau newydd. Rwy'n credu y gellir dadlau bod Cyngor De Gwent ymhlith y goreuon ym Mhrydain, a hwyrach roedd hynny mewn cof pan etholwyd fi yn gadeirydd cyntaf Cymdeithas Ysgrifenyddion Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru a'm mhenodi yn ddiweddarach yn Ysgrifennydd Cymdeithas y Cynghorau eu hunain.

Ar un adeg, roedd y llywodraeth Doriaidd am gael gwared ar y Cynghorau Iechyd Cymuned yn gyfangwbl ac roeddwn yn flaenllaw yn yr ymgyrch i'w cadw. (Cafwyd gwared ar y rhai yn Lloegr – ond ddim yng Nghymru – gan y Llywodraeth Lafur rai blynyddoedd wedyn). Ar un adeg roedd Cymdeithas Cynghorau Iechyd Cymuned Prydain ar fin chwalu yn herwydd anghytuno ynglŷn â lefel y tanysgrifiadau unigol ddisgwyliid gan y cynghorau unigol. Cynigiais innau y dylid codi tâl fyddai'n gwahaniaethu yn ôl cyllid y cynghorau unigol. Dyna a wnaed ac fe gadwyd y Gymdeithas ynghyd. Digwyddodd rhywbeth tebyg flynyddoedd wedyn pan oedd rhai cymdeithasau lleol Mind yn ei chael hi'n anodd fforddio'r tâl blynyddol. Unwaith eto fe dderbyniwyd fy nghynnig o dâl aelodaeth a wahaniaethai yn ôl y cyllid ac felly ddatrys y broblem.

Yn ein cyfundrefn ni ym Mhrydain, mae meddygon yn betrus iawn ynghylch cyfaddef i unrhyw beth fynd o'i le ar driniaeth unrhyw glaf y maen nhw'n gyfrifol amdano, a hynny am iddynt ofni achos cyfreithiol yn eu herbyn. Yn aml, y cyfan y mae'r claf neu ei berthnasau eisiau yw esboniad a'r gwirionedd. Ac os oedd rhywbeth wedi mynd o'i le a'r claf yn dioddef yn herwydd hynny, rywfaint o iawndal cymedrol. Yn anffodus erbyn hyn ceir cwmnïau o gyfreithwyr sy'n annog pobl i fynd a meddygon a staff proffesiynol arall i'r llys mewn ymgais i gael iawndal uchel – ac felly pawb yn ofni agor eu ceg rhag cydnabod rhywbeth y gellid defnyddio yn eu herbyn.

Mae system llawer gwell mewn nifer o wledydd eraill lle anogir y meddygon a phawb arall fu'n ymhél â gofal y claf i fod yn gwbl onest ac agored – yn un peth dyna'r ffordd orau i sicrhau y dysgir y gwersi priodol o unrhyw anhap a felly gryfhau'r tebygolrwydd na fydd rhywbeth felly yn digwydd eto. Ar ben hynny, rhoir iawndal rhesymol i bobl sydd wedi dioddef yn sgil unrhyw anhap heb orfod profi euogrwydd ar ran neb – wedi'r cyfan, ni ellir gwarantu canlyniad perffaith ymhob achos.

Roedd Sweden wedi arwain y ffordd â sistem debyg i hyn, felly trefnais i grŵp o gynrychiolwyr y sistem Swedaidd ynghyd â nifer o Aelodau Seneddol Sweden ddod i Brydain i esbonio'u sistem nhw i ni. Trefnais iddynt gwrdd â chyrrff meddygol a phroffesiynol eraill a'r diwydiant cyffuriau a chynrychiolwyr cleifion, gan ddiweddu a chyfarfod i Aelodau Seneddol yn San Steffan. Ni ddaeth dim byd o hyn oll ar y pryd ond o dipyn i beth mae'r gwasanaeth yn nesu at sistem o'r math erbyn hyn.

Ond yn ôl at fy mhrif gŵyn am y gwasanaeth iechyd – sef biwrocratiaeth. Mae'r gwleidyddion yn ceisio rheoli'r biwrocratiaid a'r biwrocratiaid yn ceisio rheoli'r gweithwyr - rhai proffesiynol a'r rhai digymhwyster fel ei gilydd.

Rwy'n cofio un arbrawf diddorol iawn a wnaed gan y staff nyrsio yn Ysbyty Brenhinol Gwent dros gyfnod o rai misoedd. Galwyd yr holl nyrsys oedd yn gweithio mewn ward neu adran arbennig at ei gilydd a

gofyn iddynt restru beth oedd yn dda a'r pethau nad oeddent mor dda ynglŷn â'r gwasanaeth yr oedden nhw'n ei roi i'r cleifion. Dyma bob un grŵp yn teimlo y gallent wneud rhai pethau'n well ac aethant ati, yn llwyddiannus ar y cyfan, i wella'r gwasanaethau yn sgil y trafodaethau hynny. Doedd dim angen i neb arall ddweud wrthynt beth i'w wneud, ac fe wellodd holl agwedd y nyrsys at eu gwaith o'r herwydd.

Y prif beth, yn fy marn i, yw sicrhau hyfforddiant da, cyn swydd ac mewn swydd, i weithwyr proffesiynol a'u cefnogi i roi o'u gorau yn hytrach na phenodi mwy a mwy o weinyddwyr a sgrifennu mwy a mwy o bapurau i ddweud wrth bawb sut i wneud eu gwaith.

Arbrawf Llwyddiannus yng Nghymru – a ffolineb y Torïaid

Arbrawf diddorol tebyg oedd eiddo Awdurdod Iechyd Gwent pan benderfynant, dan arweiniad ei Brif Weithredwr Jeremy Hallett, sefydlu Tîm Cynllunio'r Gwasanaeth Iechyd i bob awdurdod dosbarth yng Ngwent. Ein gwaith ni Reolwyr Iechyd Dosbarth, gydag un neu ddau swyddog yn unig i'n cynorthwyo, oedd paratoi adroddiad ar anghenion ein hardal ac argymhell i'r Awdurdod ba wasanaethau y dylid eu paratoi ar gyfer ein poblogaeth ni.

Roedd disgwyl inni wneud hynny trwy edrych ar ffeithiau ac ystadegau o bob math ac wedyn ymgynghori â'r meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr, nyrsys, ffisiotherapyddion a'r holl weithwyr proffesiynol eraill, ac a chyrrff gwirfoddol a chymunedol o bob math, yr Awdurdod Lleol ei hun a phobl unigol ddymument wneud sylwadau. Gwaith yr Awdurdod oedd gweithredu ar ein hargymhellion.

Roedd y system yma'n dechrau dwyn ffrwyth. Yn Nhorfaen, mewn prin dwy flynedd, ac ar wahân i gadw'r holl wasanaethau'n mynd ac yn wyneb prinder arian, sefydlasom Glinig Cynllunio Teulu mewn Coleg Chweched Dosbarth, Rhaglen Adfer gynhwysfawr i bobl oedd wedi dioddef ymosodiad ar eu calon, cartrefi a chymorth parhaol ynddynt i bobl a phroblemau meddyliol, sefydlu ysbyty bach cymunedol a nifer o wasanaethau newydd eraill.

Yn anffodus, dyma'r gwleidyddion yn cydio yn y syniad a phenderfynu gwneud i ffwrdd â'r Awdurdodau Iechyd yn gyfangwbl a datganoli pob dim i gyrff bychain tebyg i'n Timau Cynllunio Iechyd ni yng Ngwent. Ond unwaith eto doedd y gwleidyddion ddim yn deall goblygiadau eu penderfyniadau. Does dim angen datganoli rheolaeth ar y broses o drefnu'r holl wasanaethau hyn. Y peth pwysig yw penderfynu ba wasanaethau sydd eu hangen; dyna pryd y bydd rhaid ymgynghori â'r cyhoedd a'r bobl sy'n gweithio o fewn y gwasanaeth. Does dim angen gwneud hynny wrth fynd trwy'r holl brosesau gweinyddol ac ariannol sy'n angenrheidiol i roi'r polisïau hynny mewn grym.

Yn wir, doedd dim digon o staff â'r profiad angenrheidiol ar gael yn yr 8 Awdurdod Iechyd i wasanaethu'r 22 awdurdod lleol newydd yn y meysydd hyn, ac aeth holl sylw'r byrddau lleol newydd ar redeg y sistem yn hytrach na darganfod beth oedd gwir anghenion eu hardaloedd. Sgrifennais sawl tro at y Gweinidog Iechyd ac at Rhodri Morgan a holl Aelodau'r Cynulliad i'w rhybuddio y byddai'u sistem newydd yn fethiant llwyr. Ni wrandawyd arnaf ac aethpwyd ymlaen â'r ad-drefnu. Ond ymhen ryw ddeng mlynedd, dyma nhw'n sylwi mai fi oedd yn iawn – felly dyma ad-drefniant arall i geisio dadwneud yr ad-drefnu blaenorol.

Ffolineb y Torïaid

Ond dyw hynny'n ddim mewn cymhariaeth â ffolineb y Llywodraeth Doriäidd newydd ym 2010 wrth gwrs. Maent yn ffafrio sistem breifat fel sydd ganddynt yn America, gan anwybyddu'r ffaith fod cost gweinyddu'r sistem honno fel arfer ryw ddwywaith cymaint â'r gost o weinyddu'n Gwasanaeth Cenedlaethol ni – yn naturiol ddigon gan fod rhaid sicrhau bod pob claf yn gallu fforddio'r driniaeth neu fod ganddo yswiriant fydd yn talu amdano. Ac wedyn, wrth gwrs, rhaid paratoi'r biliau a sicrhau y cesglir y dyledion.

Mewn sistem felly mae yna demtasiwn i argymell triniaeth neu foddion drud nad oes eu gwir angen ar y claf a rhaid talu arian mawr i'r bobl sy'n buddsoddi yn y cwmnïau sy'n rhedeg y gwasanaeth . Mae miloedd ar filoedd o Americanwyr yn mynd yn fethdalwyr bob blwyddyn am nad ydynt ag yswiriant digonol. Mae miliynau o Americanwyr yn dioddef am na fedrant fforddio nag yswiriant na chostau triniaeth ac o'r herwydd mae record iechyd America yn waeth na'n heiddo ni – a llawer gwaeth nag eiddo eu cymydog tlawd Cuba! Dim ond rhywun sydd wedi'i ddallu gan athroniaeth asgell dde eithafol fyddai'n gallu dadlau y dylem efelychu America.

A ffwlbri noeth hefyd yw syniad y Torïaid o roi cyfran sylweddol o'r arian sy'n rhedeg y gwasanaeth yn nwylo meddygon teulu, gan ddadlau mai nhw sy'n gwybod orau sut i'w wario. Mae rhedeg

gwasanaeth fel y Gwasanaeth Iechyd yn orchwyl enfawr na fydd gan y meddygon teulu na'r hyfforddiant na'r amser i ymgymryd ag ef. Bydd rhaid iddynt ddibynnu ar gwmnïau proffesiynol i wneud y gwaith drostynt – a wyddoch chi beth? Cwmnïau mawr cyfalafol fydd yn rhedeg y cwmnïau a'r gwasanaethau yma – yn aml iawn yr un cwmnïau ag sy'n rhedeg ysbytai preifat. Ydw i'n rhy sinigaidd wrth feddwl mai i'r ysbytai preifat yna y cyfeirir y cleifion o hynny mlaen

Wrth gwrs, rhaid gwranddo ar y meddygon, a'r holl weithwyr eraill yn y gwasanaeth, ond mae gan bob un ohonynt ei ddiddordebau personol ei hun. Rhaid edrych ar y darlun cyfan ac yn bwysicaf oll, rhaid ymgynghori â'r cyhoedd hefyd. Dyna roeddem ni'n dechrau'i wneud yng Ngwent, heb orlwytho'r sustem a chyfrifoldeb am y prosesau gweinyddol. Trueni nad oedd gan y gwleidyddion ddigon o weledigaeth i adeiladu ar ein trefn newydd arbrofol ni.

I droi'n ôl at lywodraeth newydd y glymblaid ym 2010, does dim dwywaith yn fy meddwl i os aiff y llywodraeth â'r maen i'r wal a'u cynlluniau newydd bydd dyddiau'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol ar ben. Ond efallai nad yw'r Torïaid mor ffôl wedi'r cyfan. Mae'n debyg mai dyna yw eu gwir nod yn y pendraw!

Y “Gymdeithas Fawr”

Twyll arall, wrth gwrs, yw holl sôn Cameron am y “Gymdeithas Fawr”. Mewn gwirionedd, mae'n awyddus i danseilio cymdeithas – a hyd yn oed danseilio democratiaeth ei hun.

Ganrif a hanner yn ôl, roedd bron y cyfan o'r gwasanaethau roedd pobl gyffredin yn dibynnu arnynt yn nwylo cwmnïau preifat neu fudiadau gwirfoddol a sefydlwyd gan unigolion cyfoethog. O dipyn i beth estynnwyd y bleidlais, yn gyntaf i bob dyn ac wedyn i ferched hefyd, a bwriad pleidlais gyffredinol i bawb oedd creu cymdeithas lle y byddai'r gwasanaethau pwysicaf yn nwylo cynrychiolwyr y bobl er mwyn sicrhau eu bod nhw ar gael i bawb ac mewn ffurf dderbyniol i fwyafrif y boblogaeth. Dyw'r gyfundrefn yma erioed wedi gweithio'n berffaith,

wrth gwrs, ac mae angen dulliau newydd i wneud ein cynrychiolwyr a rheolwyr y gwasanaethau'n fwy atebol i'r bobl.

Ond yn lle ceisio gwella'r gyfundrefn honno, mae'r Torïaid am ei dymchwel yn llwyr a rhoi'r gwasanaethau cyhoeddus yn ôl i'r cyfalafwyr ac i unigolion a chyrff gwirfoddol cyfoethog. Fydd fawr obaith i neb arall ddylanwadu ar natur ein gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y cloc wedi'i droi'n ôl ganrif a hanner a rhai o brif nodweddion cymdeithas ddemocrataidd wedi'u dymchwel.

Yr unig obaith yw y bydd gennym ddigon o rym – ac o synnwyr – yma yng Nghymru i wrthsefyll y don gyfalafol yma rhag dinistrio'n gwasanaethau cyhoeddus a rhag boddi ein cenedl.

ER 2011